Y
Comisiwn
Etholiadol

# Llawlyfr ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio

Cefnogi etholiadau'r Senedd



## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Llawlyfr ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio

Cod archebu: SEN26G001E
© Y Comisiwn Etholiadol 2026

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** 1

**2. Yr etholiadau a thîm yr orsaf bleidleisio** 2
Etholiadau'r Senedd 2
Rolau a chyfrifoldebau tîm yr orsaf bleidleisio 2

**3. Cyn y diwrnod pleidleisio** 4
Hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio 4
Lleoli'r orsaf bleidleisio 4
Safonau ymddangosiad 5
Cysylltu ag aelodau eraill o'r tîm 5
Danfon neu gasglu'r blwch pleidleisio 5

**4. Diwrnod pleidleisio: cyn i'r pleidleisio ddechrau** 6
Cyrraedd yr orsaf bleidleisio 6
Beth fydd yn digwydd os na fydd deiliad yr allwedd yn bresennol? 6
Gwirio cyflenwadau a deunyddiau 6
Cynllun gorsafoedd pleidleisio 7
Arwyddion a hysbysiadau 10
Offer 10
Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio? 10
Gwiriadau terfynol o'r gwaith papur 13
Selio'r blychau pleidleisio 13

**5. Diwrnod pleidleisio: agor a chynnal y bleidlais** 14
Agor yr orsaf bleidleisio 14
Dyrannu rolau mewn gorsafoedd pleidleisio 14
Crynodeb o'r drefn bleidleisio 14
Cam un - gwirio'r pleidleisiwr 15
Cam dau - rhoi'r papur pleidleisio 16
Cam tri - pleidleisio 17

**6. Diwedd y pleidleisio** 21
Gweithdrefnau 21
Cwblhau'r gwaith papur 22
Pacio deunyddiau yn yr orsaf bleidleisio 23
Cludo deunyddiau etholiadol i'r ganolfan dilysu a chyfrif 23

**Atodiad 1 – Cymorth pleidleisio i bleidleiswyr anabl a phleidleiswyr ag anghenion ychwanegol** 25
Ymwybyddiaeth hygyrchedd 25
Offer a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio i gefnogi pleidleiswyr 26
Cymorth i etholwyr nad ydynt yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio 27
Pleidleiswyr anabl sy'n gofyn am gymorth 28
Helpu pleidleiswyr dall neu rannol ddall i farcio eu papur pleidleisio 29
Cynorthwyo pleidleiswyr byddar yn yr orsaf bleidleisio 29

**Atodiad 2 – Ymdrin â phroblemau ar y gofrestr etholwyr** 30
Oedran - hawl i bleidleisio 30
Enwau wedi'u camsillafu a phleidleiswyr sydd wedi newid eu henw 30
Etholwyr eraill 30
Person nad yw ar y gofrestr etholwyr 30
Gwallau clercio ar y gofrestr 30
Unrhyw berson arall nad yw ar y gofrestr etholwyr 31

**Atodiad 3 – Y weithdrefn ar gyfer pleidleiswyr post a phleidleiswyr drwy ddirprwy** 32
Pleidleiswyr post 32
Pleidleiswyr drwy ddirprwy 33

**Atodiad 4 – Etholwyr gyda chofnod dienw ar y gofrestr** 36
Y drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i etholwyr gyda chofnod dienw 36
Beth os bydd etholwr sydd â chofnod dienw yn ymddangos yn yr orsaf bleidleisio heb gerdyn pleidleisio? 36

**Atodiad 5a – Y cwestiynau rhagnodedig** 37
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel etholwr 38
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy (ond nid ar ran etholwr sydd â chofrestriad dienw) 38
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr gyda chofrestriad dienw 38

Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio'n bersonol pan ddangosir ei fod ar y gofrestr fel pleidleisiwr post 39
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy pan ddangosir ei fod wedi cael papurau pleidlais bost drwy ddirprwy 39

**Atodiad 5b – Papurau pleidleisio a gyflwynwyd 41**
Amgylchiadau ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd 41
Y drefn ar gyfer rhoi papurau 41
Rhesymau dros gwblhau papurau pleidleisio a gyflwynwyd 42

**Atodiad 6 – Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio 43**
Cadw trefn 43
Achosion neu aflonyddwch difrifol a gohirio'r bleidlais 43
Delio â sefyllfaoedd anodd 44

**Atodiad 7 – Y weithdrefn ar gyfer delio â chambersonadu 45**
Beth sy'n digwydd os bydd staff gorsaf bleidleisio yn amau bod person yn cambersonadu etholwr neu ddirprwy? 45
Beth sy'n digwydd os bydd asiant etholiadol, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn herio pleidleisiwr? 45
Beth sy'n digwydd os yw'n ymddangos bod rhywun arall (ar wahân i ddirprwy) wedi pleidleisio ar ran y pleidleisiwr? 45

**Atodiad 8 – Canllawiau ynghylch rhifwyr, y cyfryngau a pholau ymadael 46**
Rhifwyr 46
Y cyfryngau 46
Polau ymadael 47

**Atodiad 9 – Iechyd a diogelwch 48**
Iechyd a diogelwch staff gorsafoedd pleidleisio ac etholwyr 48
Codi pethau trwm 48

**Atodiad 10 – Cwestiynau cyffredin i staff gorsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio 49**

**Atodiad 11 – Rhestr wirio ar gyfer gosod gorsafoedd pleidleisio 51**
Y tu allan i'r orsaf bleidleisio 51
Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio 52

# 1. Cyflwyniad

## Mae’r llawlyfr hwn wedi’i ddylunio i helpu staff gorsafoedd pleidleisio sy’n gweithio ar etholiadau’r Senedd yng Nghymru. Mae’n disgrifio’r gweithdrefnau i’w dilyn a sut i ddelio ag unrhyw broblemau a allai godi.

Fel staff gorsafoedd pleidleisio, rydych chi’n chwarae rhan ganolog yn yr etholiadau. Mae eich rôl yn hanfodol i sicrhau bod gan bleidleiswyr, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid hyder yn y broses etholiadol.

Byddwch yn cael hyfforddiant ar eich rôl, ond dylech ddarllen y llawlyfr hwn yn ofalus cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn sicrhau eich bod yn gyfarwydd â’r holl brosesau a ddisgrifir ynddo.

Cyfeirir drwy gydol y llawlyfr hwn at y Swyddog Canlyniadau. Y rheswm am hyn yw mai’r Swyddog Canlyniadau perthnasol sy’n gyfrifol am y rhan fwyaf o drefniadau sy’n ymwneud â chynnal y bleidlais.

Yn ymarferol, fodd bynnag, y gweinyddwr etholiadol sy’n gyfrifol am gynnal etholiadau o ddydd i ddydd. Bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn cael manylion cyswllt lleol cyn y diwrnod pleidleisio ac mae’n debyg mai’r swyddfa etholiadol fydd hon yn y lle cyntaf.

# 2. Yr etholiadau a thîm yr orsaf bleidleisio

## Etholiadau'r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol o dan system rhestr gyfrannol gaeedig.

Ar y papur pleidleisio, gofynnir i bleidleiswyr roi un 'X' yn y blwch wrth ymyl y blaid neu'r ymgeisydd annibynnol o'u dewis. Os bydd pleidleisiwr yn pleidleisio dros fwy nag un blaid neu ymgeisydd annibynnol, ni fydd ei bapur pleidleisio yn cael ei gyfrif.

Mae 96 o Aelodau o'r Senedd (ASau) yn y Senedd - mae 6 AS yn cael eu hethol i gynrychioli pob un o'r 16 etholaeth etholiadol. Mae ymgeiswyr yn cael eu hethol o dan y dull D'Hondt sy'n dyrannu seddi ar sail cyfran y pleidleisiau a gafwyd.

## Rolau a chyfrifoldebau tîm yr orsaf bleidleisio

Rôl staff gorsafoedd pleidleisio yw sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn annibynnol, yn gyfrinachol, heb ddylanwad, yn ddiogel ac mewn awyrgylch tawel.

Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi penderfynu faint o aelodau staff sydd eu hangen yn yr orsaf bleidleisio.

Dylai'r Swyddog Llywyddu a Chlercod Pleidleisio allu cyflawni dyletswyddau ei gilydd os oes angen. Fodd bynnag, mae gan Swyddogion Llywyddu gyfrifoldeb cyffredinol dros yr orsaf bleidleisio ac maent yn cyflawni rôl oruchwylio ychwanegol. Hefyd, yn ôl y gyfraith, mae nifer o ddyletswyddau na all ond Swyddogion Llywyddu eu cyflawni. Y rhain yw:

- gofyn i blismon symud rhywun o orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 6)
- cyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig sy'n bresennol ar unrhyw un adeg (gweler Pennod 4)
- penderfynu gwrthod rhoi papur pleidleisio i etholwr nad yw wedi ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 5a)

### Dyletswyddau'r Swyddog Llywyddu

Swyddogion Llywyddu sy'n gyfrifol am gynnal y bleidlais yn yr orsaf bleidleisio a dylent feddu ar wybodaeth gadarn am y gweithdrefnau pleidleisio.

Prif ddyletswyddau'r Swyddog Llywyddu yw:

- cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau
- cysylltu â deiliad allwedd y man pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio, os oes angen (gweler Pennod 3)
- trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio (gweler Pennod 4)
- agor a chau'r orsaf bleidleisio yn brydlon
- cyfarwyddo a goruchwylio gwaith Clercod Pleidleisio
- sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y bleidlais
- bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ddelio ag etholwyr, ymgeiswyr ac asiantiaid, ac eraill sydd â hawl i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio
- gweithredu'n ddiduedd bob amser
- cadw trefn yn yr orsaf bleidleisio
- sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn ddiogel drwy sicrhau y cedwir at gyngor iechyd y cyhoedd gan y Swyddog Canlyniadau drwy gydol y dydd
- rhoi cyfrif a bod yn gyfrifol am yr holl bapurau pleidleisio, gwaith papur a'r blwch pleidleisio
- sicrhau, pan fyddant hwy neu eu Clerc Pleidleisio yn cyhoeddi papurau pleidleisio, eu bod yn dwyn y marc swyddogol a'u bod yn cael eu dosbarthu'n gywir i etholwyr cymwys
- sicrhau bod y weithdrefn briodol ar gyfer pleidleisio yn cael ei dilyn, gan sicrhau bod

y rhestr rhifau cyfatebol yn cael ei marcio'n gywir

- darparu cymorth priodol i helpu pleidleiswyr anabl a phleidleiswyr gyda gofynion ychwanegol
- sicrhau bod yr holl offer ar gyfer pleidleiswyr anabl yn cael ei arddangos ac yn barod i'w ddefnyddio
- gofyn y cwestiynau rhagnodedig i bleidleiswyr pan fo angen, gan gynnwys pan ofynnir iddynt wneud hynny gan ymgeiswyr neu asiantiaid neu cyn rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd
- delio â gweithdrefnau pleidleisio arbennig yn ôl y gofyn
- derbyn unrhyw bleidleisiau post a gyflwynir gan etholwyr
- rheoli presenoldeb y rheini sydd â hawl i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio, e.e. ymgeiswyr ac asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig, a sicrhau nad ydynt yn ymyrryd â'r broses bleidleisio
- cynnwys cofnod yng nghofnodion yr orsaf bleidleisio o bawb sy'n bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio at ddibenion arsylwi'r gweithgareddau
- monitro gweithgareddau rhifwyr y tu allan i fannau pleidleisio a sicrhau nad ydynt yn ymyrryd â'r broses bleidleisio
- sicrhau bod yr holl arwyddion a hysbysiadau yn glir, yn weladwy ac yn aros yn eu lle drwy gydol y dydd
- cadw'r orsaf bleidleisio yn dwt ac yn daclus

Os oes mwy nag un orsaf bleidleisio mewn adeilad, caiff y Swyddog Canlyniadau neu staff yr etholiad ddynodi un o'r Swyddogion Llywyddu i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y man pleidleisio.

## Dyletswyddau'r Clerc Pleidleisio

Nid oes gan Glercod Pleidleisio gyfrifoldebau'r Swyddog Llywyddu, ond dylent wybod am yr holl weithdrefnau ar gyfer pleidleisio a sut i ddelio ag unrhyw broblemau.

Prif ddyletswyddau'r Clerc Pleidleisio yw:

- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Llywyddu
- helpu gyda chynllun yr orsaf bleidleisio a pharatoi ar gyfer agor yr orsaf bleidleisio
- bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ddelio â phleidleiswyr, ymgeiswyr ac asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig
- gweithredu'n ddiduedd bob amser
- gwneud yn siŵr bod etholwyr yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau ac yn yr orsaf bleidleisio hon
- gwirio a marcio rhifau etholwyr y pleidleiswyr ar y gofrestr etholwyr
- ar y rhestr rhifau cyfatebol, ysgrifennu rhif etholwr y pleidleisiwr yn erbyn rhif y papur pleidleisio a roddwyd
- rhoi papurau pleidleisio i bleidleiswyr, gan sicrhau eu bod yn dwyn y marc swyddogol
- gofyn y cwestiynau rhagnodedig pan ofynnir iddynt wneud hynny gan y Swyddog Llywyddu (gweler Atodiad 5a)
- sicrhau bod pleidleiswyr yn bwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol
- cynnal cyfrinachedd y bleidlais bob amser
- ateb cwestiynau pleidleiswyr, lle bo hynny'n briodol, mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol
- cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu i gwblhau'r gweithdrefnau angenrheidiol ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau
- helpu gydag unrhyw ddyletswyddau eraill yn yr orsaf bleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Llywyddu

Mewn rhai mannau pleidleisio, gellir defnyddio un neu ragor o Glercod Pleidleisio fel cyfarchwyr i gwrdd ag etholwyr wrth iddynt ddod i mewn. Gall cyfarchwyr helpu pleidleiswyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud a lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr adeilad, cyfeirio etholwyr at yr orsaf bleidleisio gywir.

# 3. Cyn y diwrnod pleidleisio

## Hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio

Bydd angen i staff gorsafoedd pleidleisio gael eu briffio'n llawn am yr etholiadau ac ni allant ddibynnu'n llwyr ar brofiad blaenorol. Ni ddylai staff gorsafoedd pleidleisio ddibynnu ar y llawlyfr hwn yn unig ychwaith. Dylai Swyddogion Canlyniadau gael sesiynau briffio neu hyfforddiant wedi'u trefnu cyn yr etholiadau a byddant yn disgwyl i staff y gorsafoedd pleidleisio fod yn bresennol.

## Lleoli'r orsaf bleidleisio

Penodir Swyddogion Canlyniadau i gynnal yr etholiadau. Maent yn penderfynu faint o orsafoedd pleidleisio sydd eu hangen, ble y dylid eu lleoli a faint o Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio sydd eu hangen i'w staffio.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd gorsaf bleidleisio yn yr un lle ag y bu ar gyfer etholiadau neu refferenda blaenorol. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu gwybodaeth am leoliad yr orsaf bleidleisio pan wneir penodiadau. Dylai pob aelod o dîm yr orsaf bleidleisio wybod lleoliad yr orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio.

Gall y Swyddog Canlyniadau ofyn i Swyddogion Llywyddu ymweld â'r orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio. Yn yr achos hwn, dylent drefnu amser sy'n gyfleus i bawb gyda deiliad yr allwedd.

Ar bob adeg, dim ond gyda chaniatâd deiliad yr allwedd y dylid cael mynediad i orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio. Byddwch yn ymwybodol o'r sensitifrwydd ynghylch ymweld ag adeiladau awdurdodau lleol yn ystod oriau gwaith (yn enwedig sefydliadau addysgol a gofal cymdeithasol).

Os yw'n bosibl, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cwrdd yn yr orsaf bleidleisio, neu ar-lein, ag aelodau eraill o'r tîm cyn y diwrnod pleidleisio i gael gwybod pa gyfleusterau sydd ar gael ac i drafod pa gyflenwadau a lluniaeth y gallai fod eu hangen.

Gall rhai adeiladau gynnwys dwy orsaf bleidleisio neu fwy. Os felly, dylai Swyddogion Llywyddu, pan gânt gyfarwyddyd i wneud hynny gan y tîm etholiadau, gydlynu unrhyw ymweliad â'r safle cyn y diwrnod pleidleisio gyda'r Swyddogion Llywyddu eraill. Bydd deiliad yr allwedd yn gwerthfawrogi hyn a bydd yn galluogi cydweithwyr i drafod mynedfeydd, allanfeydd a chynllun pob un o'r gorsafoedd pleidleisio.

Dylai deiliad yr allwedd agor yr adeilad yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau a dim hwyrach na 6.30am ar y diwrnod pleidleisio.

Os na fydd y person priodol ar gael i agor yr adeilad, caiff y swyddfa etholiadau ofyn i'r Swyddogion Llywyddu wneud trefniadau i gasglu'r allweddi cyn y diwrnod pleidleisio. Yn yr achos hwn, dylai Swyddogion Llywyddu sicrhau bod ganddynt yr holl allweddi perthnasol, gan gynnwys unrhyw allweddi giât, ac unrhyw fanylion larwm, a sicrhau bod rhif ffôn a chyfeiriad deiliad yr allwedd ar gael yn rhwydd rhag ofn y bydd unrhyw beth yn mynd o'i le.

Dylai staff yr orsaf bleidleisio ystyried faint o amser y bydd yn ei gymryd i gyrraedd yr orsaf bleidleisio ar fore'r etholiadau a chynnwys hyn yn eu cynlluniau ar gyfer y diwrnod. Bydd cyrraedd mewn da bryd yn galluogi staff i sicrhau bod yr orsaf bleidleisio wedi'i gosod mewn modd priodol cyn i'r gorsafoedd pleidleisio agor am 7am.

Dylai staff gorsafoedd pleidleisio sicrhau eu bod yn mynd â digon o fwyd a diod i bara drwy gydol y diwrnod pleidleisio, gan na fyddant yn gallu gadael y man pleidleisio tra bydd y gorsafoedd pleidleisio ar agor.

## Safonau ymddangosiad

Dylai'r awyrgylch yn yr orsaf bleidleisio fod yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, a dylai staff yr orsaf bleidleisio wisgo'n briodol. Fodd bynnag, bydd staff yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio drwy'r dydd a dylent hefyd ystyried eu cysur personol.

Cofiwch fod staff gorsafoedd pleidleisio yn cynrychioli'r Swyddog Canlyniadau ac y dylent ymddwyn yn ddiduedd bob amser. Ni ddylid gwisgo bathodynnau, sloganau na lliwiau a allai godi amheuaeth ynghylch didueddrwydd staff yr orsaf bleidleisio.

## Cysylltu ag aelodau eraill o'r tîm

Caiff Swyddogion Canlyniadau roi manylion cyswllt unrhyw Glerc(od) Pleidleisio sydd ar ddyletswydd yn yr un orsaf bleidleisio i'r Swyddog Llywyddu.

Os gwneir hyn, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Clerc(od) Pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio i sicrhau eu bod yn gwybod lleoliad yr orsaf bleidleisio a pha bryd i gyrraedd.

## Danfon neu gasglu'r blwch pleidleisio

Oni bai fod y blwch pleidleisio'n cael ei ddanfon yn uniongyrchol i'r orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Canlyniadau'n rhoi gwybod i'r Swyddogion Llywyddu am y trefniadau ar gyfer casglu'r blwch pleidleisio ynghyd â holl ddeunyddiau perthnasol yr etholiad. Os yw'r blwch pleidleisio a deunyddiau etholiadol eraill i gael eu casglu gan y Swyddog Llywyddu a'u cadw wedyn yng nghartref y Swyddog Llywyddu, **rhaid bod yn ofalus iawn i sicrhau eu diogelwch bob amser.** Yn benodol, ni ddylid gadael unrhyw ddeunyddiau etholiadol heb oruchwyliaeth mewn car.

# 4. Diwrnod pleidleisio: cyn i'r pleidleisio ddechrau

Rhaid i'r orsaf bleidleisio agor am 7am. Peidiwch â bod yn hwyr. Rhaid i chi roi gwybod i'r swyddfa etholiadau cyn gynted â phosibl os byddwch yn wynebu unrhyw broblemau a allai eich atal rhag agor am 7am.

## Cyrraedd yr orsaf bleidleisio

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn dweud wrthych faint o'r gloch y dylech gyrraedd yr orsaf bleidleisio. Ni ddylai hyn fod yn hwyrach na 6.30am.

Bydd angen i chi wneud yn siŵr bod gennych chi ddigon o amser i osod yr orsaf bleidleisio os nad yw hynny wedi cael ei wneud y noson cynt.

Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o amser i gyrraedd yr orsaf bleidleisio - peidiwch â bod yn hwyr. Rhaid i staff sydd wedi cael eu dal yn ôl yn anfwriadol neu na allant ddod i'r orsaf bleidleisio, gysylltu â'r swyddfa etholiadau ar unwaith.

Rhaid i Swyddogion Llywyddu wirio bod oriorau neu glociau yn gywir i sicrhau bod yr orsaf bleidleisio yn agor yn brydlon.

Dylai Swyddogion Llywyddu, pan fo'r Swyddog Canlyniadau wedi gofyn iddynt wneud hynny, gasglu hysbysiad penodi'r Clerc Pleidleisio.

Dylai Swyddogion Llywyddu wirio bod Clercod Pleidleisio yn ymwybodol o ofynion cyfrinachedd.

## Beth fydd yn digwydd os na fydd deiliad yr allwedd yn bresennol?

Yn gyntaf, ceisiwch gysylltu, naill ai dros y ffôn neu drwy anfon aelod o dîm yr orsaf bleidleisio i'w cartref. Os nad oes modd cael mynediad, cysylltwch â'r swyddfa etholiadau i roi gwybod iddynt am y sefyllfa ac i ofyn am gyfarwyddiadau pellach. Os oes angen, trefnwch orsaf bleidleisio dros dro. Efallai y bydd digon o le wrth fynedfa'r adeilad, neu hyd yn oed y tu allan iddo. Mewn rhai achosion, mae Swyddogion Llywyddu wedi defnyddio cefn car. **Beth bynnag fo'r sefyllfa, rhaid i bleidleiswyr allu pleidleisio'n ddiogel ac yn gyfrinachol o 7am ymlaen.**

Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau ac unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol am unrhyw drefniadau rydych chi'n eu gwneud.

## Gwirio cyflenwadau a deunyddiau

Oni bai bod y Swyddog Canlyniadau yn eu darparu'n uniongyrchol i'r orsaf bleidleisio, y Swyddog Llywyddu fydd yn gyfrifol am gludo'r blwch pleidleisio a deunyddiau'r etholiad. Fel arfer, bydd eitemau mwy, fel y bythau pleidleisio, wedi cael eu danfon i'r eiddo ymlaen llaw. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybod i'r Swyddogion Llywyddu am y trefniadau.

Darperir rhestr wirio o gyflenwadau gorsafoedd pleidleisio gyda'r blwch pleidleisio a deunyddiau eraill yr orsaf bleidleisio. Os, ar ôl gwirio'r cynnwys, bod unrhyw offer neu ddeunyddiau a restrir ar y rhestr ar goll, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith. Dylid gwirio'r deunyddiau wrth eu derbyn. Byddwch yn ofalus wrth godi'r deunyddiau neu'r cyfarpar; efallai eu bod yn drwm (gweler Atodiad 9 am wybodaeth am iechyd a diogelwch).

Dylai'r Swyddog Llywyddu wneud yn siŵr eu bod wedi cael y gofrestr gywir ar gyfer eu gorsaf bleidleisio a'i bod yn cynnwys y nifer disgwyliedig o etholwyr a ddyrannwyd iddi.

Dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd wirio bod y papurau pleidleisio mewn trefn rifol, a'u bod yn gywir ar gyfer yr orsaf bleidleisio ac nad oes gwallau amlwg yn rhifau'r papurau.

Dylid gwirio'r rhifau ar gefn y papurau pleidleisio yn erbyn rhifau'r papurau pleidleisio sydd wedi'u hargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol. Dylid gwirio hyn cyn dechrau pleidleisio. Dylid rhoi'r papurau pleidleisio yn yr un drefn ag y maent wedi'u hargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol. Os nad yw'r rhifau'n cyfateb, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith.

Dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd wirio bod y marc adnabod unigryw ar gefn y papurau pleidleisio a bod y marc swyddogol a argraffwyd ymlaen llaw hefyd yn bresennol.

Dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd wirio bod manylion yr ymgeiswyr a'r pleidiau ar y papurau pleidleisio yn cyfateb i'r rheini ar y Datganiad ynghylch y Pleidiau a'r Personau a Enwebwyd fel y'u darparwyd gan y Swyddog Canlyniadau.

Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio lle ceir gwallau neu lle mae'r argraffu'n anamlwg neu'n aneglur.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio'r offer y mae'r Swyddog Canlyniadau wedi'i ddarparu i gefnogi pleidleiswyr anabl - er enghraifft, dyfais bleidleisio gyffyrddol, chwyddhadur(on) a gafaelion pensil - a dylai sicrhau bod yr holl staff yn gyfforddus o ran sut i ddefnyddio'r offer a ddarperir. Ceir rhestr wirio lawn o'r offer y dylid ei ddarparu yn Atodiad 11.

## Cynllun gorsafoedd pleidleisio

Y dasg gyntaf wrth gyrraedd fydd gosod yr orsaf bleidleisio, oni bai fod hyn eisoes wedi'i wneud i chi'r noson flaenorol.

Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi penderfynu pa drefniadau sy'n angenrheidiol i helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn fannau diogel i bleidleisio a gweithio ynddynt. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybod i chi am unrhyw fesurau arbennig a fydd ar waith yn eich gorsaf bleidleisio.

Mae cynllun yr ystafell yn bwysig. Gallai cynllun gwael achosi dryswch a phroblemau mynediad diangen. Mae Atodiad 11 yn darparu rhestr wirio ar gyfer cynllun gorsafoedd pleidleisio ac arddangos hysbysiadau. Hyd yn oed os yw'r orsaf bleidleisio eisoes wedi'i gosod ar eich cyfer, dylech ddal wneud yn siŵr ei bod wedi'i gosod yn iawn gan ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 11.

Efallai y bydd gofalwyr eisoes wedi trefnu'r ystafell, yn enwedig os yw'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Llywyddu wedi rhoi cyfarwyddiadau iddynt ar gynllun yr orsaf bleidleisio ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i staff yr orsaf bleidleisio osod yr ystafell neu aildrefnu'r dodrefn. Gall rhai bythau pleidleisio fod yn drwm; byddwch yn ofalus wrth eu codi neu eu symud (gweler Atodiad 9 am gyngor ar faterion iechyd a diogelwch).

Mae enghreifftiau o gynlluniau ar gyfer trefniadau gwahanol i'w gweld ar dudalen 10. Dangosir y rhain fel canllaw ac efallai y bydd yn rhaid eu haddasu i gwrdd ag amgylchiadau lleol.

Rhaid i'r cynllun weithio i'r pleidleisiwr a chyfrannu at rediad llyfn a diogel yr orsaf bleidleisio. Yn benodol, rhaid ystyried anghenion pleidleiswyr anabl sydd â chyflyrau neu namau gwahanol.

Er enghraifft:

- A yw'r blwch pleidleisio yn hygyrch i bob pleidleisiwr?
- Ydy hi'n hawdd i rywun sy'n defnyddio cadair olwyn fynd o gwmpas yr orsaf bleidleisio a'r ardaloedd cyfagos?
- A yw'r holl fythau pleidleisio wedi'u gosod yn y fath fodd fel eu bod yn cynnal preifatrwydd pleidleisio i bob pleidleisiwr?
- A yw'r bwth pleidleisio lefel isel yn y lle mwyaf priodol ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn, gyda digon o le i gadair olwyn gael ei symud yn gyfforddus?

- A yw'r hysbysiadau'n hygyrch i bob pleidleisiwr, gan gynnwys pobl â nam ar eu golwg a'r rheini mewn cadeiriau olwyn?
- A yw'r bythau pleidleisio wedi'u lleoli i wneud y defnydd gorau o'r golau sydd ar gael?
- A yw'r asiantiaid pleidleisio a'r arsylwyr wedi'u lleoli fel nad ydynt yn ymyrryd â'r gweithgareddau, ond yn dal i allu arsylwi'r achos?
- A oes cadeiriau ar gael yn yr orsaf bleidleisio ar gyfer etholwyr na allant sefyll am gyfnodau hir?
- A yw'r offer a ddarparwyd i gefnogi pleidleiswyr anabl yn hygyrch?


Ym mhob achos:

- Defnyddiwch y rhestr wirio yn Atodiad 11 wrth osod yr orsaf bleidleisio neu wirio ei bod wedi'i gosod yn gywir.
- Gwnewch yn siŵr nad yw'r bythau pleidleisio yn cael eu gosod fel bod pobl y tu allan yn gallu gweld sut mae pleidleiswyr yn marcio eu papurau pleidleisio.
- Gwnewch yn siŵr bod y cynllun yn cefnogi llif etholwyr drwy'r orsaf bleidleisio ac yn atal tagfeydd neu ardaloedd lle gall pleidleiswyr ymgynnull, yn enwedig o amgylch bythau pleidleisio, i helpu i gynnal cyfrinachedd y bleidlais.
- Trefnwch y blychau pleidleisio a'r bythau pleidleisio i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob pleidleisiwr, ond eto'n gwbl weladwy i staff yr orsaf bleidleisio.
- Gosodwch y bwrdd lle y rhoddir papurau pleidleisio a'r blwch pleidleisio mewn ffordd sy'n atal unrhyw bleidleisiwr rhag gadael yr orsaf bleidleisio heb eich pasio chi a'r blwch pleidleisio, ac sy'n caniatáu i chi wneud yn siŵr nad yw'n gadael yr orsaf bleidleisio gyda'i bapur pleidleisio.
- Ystyriwch pa drefniadau y byddai angen i chi eu gwneud er mwyn gallu gwasanaethu a delio â phleidleiswyr yn ystod cyfnodau prysur.
- Cadwch fanylion cyswllt y swyddfa etholiadau wrth law a dilynwch unrhyw weithdrefnau uwchgyfeirio yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau os bydd unrhyw broblemau'n codi yn ystod y diwrnod pleidleisio.


Cofiwch, mewn ystafell lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio, fod yn rhaid cadw'r blychau pleidleisio ar wahân. Fel arall, gall pleidleiswyr o un orsaf bleidleisio roi eu papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio anghywir ac ni fydd cyfrifon y papurau pleidleisio ar gyfer y ddwy orsaf bleidleisio yn cyfateb.

Hyd yn oed gyda'r blychau pleidleisio'n cael eu cadw ar wahân, dylai staff barhau i fod yn wyliadwrus oherwydd efallai y bydd pleidleiswyr yn dal i ddrysu ynghylch pa flwch pleidleisio y dylent fod yn ei ddefnyddio.


Enghraifft o gynllun gorsaf bleidleisio unigol gydag un fynedfa/allanfa:




Enghraifft o gynllun gorsaf bleidleisio unigol gyda mynedfa ac allanfa ar wahân:




Enghraifft o gynllun gorsaf bleidleisio ddwbl:



## Arwyddion a hysbysiadau

Meddyliwch beth yw pwrpas pob arwydd a hysbysiad wrth eu gosod. Dilynwch y llwybr y disgwylir i'r pleidleisiwr ei ddilyn, gan wirio'r holl arwyddion a hysbysiadau. Mae rhai arwyddion a hysbysiadau yn gyfeiriol tra bod rhai eraill yn darparu gwybodaeth i bleidleiswyr.

Sicrhewch eu bod wedi'u lleoli fel y gall pob pleidleisiwr eu darllen, gan gynnwys y rhai mewn cadeiriau olwyn a phobl a allai fod â nam ar eu golwg. Os nad yw'r arwyddion a'r hysbysiadau yn ddwyieithog, rhaid i chi arddangos y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg.

Bydd yr hysbysiad sy'n dwyn y teitl 'Sut mae pleidleisio yn yr etholiad hwn' yn cael ei arddangos y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio. Os yw'r Swyddog Canlyniadau wedi darparu unrhyw hysbysiadau o'r fath mewn ieithoedd a fformatau eraill, e.e. Braille, mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg, neu mewn fformatau darluniadol, dylid arddangos y rhain hefyd y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio.

Rhaid hefyd arddangos Datganiad ynghylch Pleidiau a'r Personau a Enwebwyd y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio.

Yr **unig** hysbysiad i'w arddangos ym mhob bwth pleidleisio yw hysbysiad sy'n rhoi gwybodaeth am sut i farcio'r papurau pleidleisio yn yr etholiad hwn.

Os yw'r Swyddog Canlyniadau wedi darparu unrhyw hysbysiadau o'r fath mewn ieithoedd a fformatau eraill, e.e. Braille, mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg, neu mewn fformatau darluniadol, dylid arddangos y rhain hefyd y tu mewn i'r bwth pleidleisio. Ni ddylid arddangos unrhyw hysbysiadau eraill yn y bwth pleidleisio.

Rhaid arddangos copi sampl mawr o'r papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio hefyd, yn ddelfrydol mewn lleoliad wedi'i oleuo'n dda lle gall pleidleiswyr ei weld yn hawdd cyn cael eu papur pleidleisio.

Bydd copi llaw chwyddedig o'r papur pleidleisio hefyd yn cael ei ddarparu gan y Swyddog Canlyniadau. Gellir rhoi hwn i bleidleiswyr sy'n rhannol ddall, neu i unrhyw bleidleiswyr eraill ar gais a allai ei chael yn ddefnyddiol, fynd ag ef i'r bwth pleidleisio i gyfeirio ato wrth farcio eu papur pleidleisio.

Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw ddeunydd y gellid ei ddehongli fel deunydd sy'n cefnogi safbwyntiau unrhyw blaid neu ymgeisydd sy'n gysylltiedig â'r etholiadau yn cael ei arddangos yn neu ar yr adeilad. Os deuir o hyd i unrhyw ddeunyddiau o'r fath, rhaid eu tynnu neu eu gorchuddio.

## Offer

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn darparu offer i gefnogi pleidleiswyr anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.

Wrth osod yr orsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr bod yr offer wedi'i osod i helpu i sicrhau bod etholwyr yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael. Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o dîm yr orsaf bleidleisio yn gwybod pa offer sydd yno, a sut mae pob eitem yn gweithio.

Mae rhagor o wybodaeth am yr offer hwn a'ch rôl yn cefnogi pleidleiswyr anabl ar gael yn Atodiad 1.

Gall pleidleiswyr ddod â'u beiro neu bensil eu hunain gyda nhw a'u defnyddio. Fodd bynnag, bydd dal angen i feiros/pensiliau fod ar gael a bydd y Swyddog Canlyniadau'n rhoi cyngor ar sut bydd eu defnydd yn cael ei reoli yn yr orsaf bleidleisio.

## Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r gyfraith yn darparu'n benodol i bobl benodol fod yn bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio (yn ogystal â staff etholiadau a phleidleiswyr). Y rhain yw:

- ymgeiswyr
- asiantiaid etholiadol
- asiantiaid pleidleisio

- swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- personau o dan 16 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr
- cymdeithion pleidleiswyr anabl

Caiff asiant etholiadol benodi is-asiantiaid i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar ei ran. Drwy gydol y llawlyfr hwn, mae unrhyw gyfeiriad at yr asiant etholiadol yn cynnwys unrhyw is-asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan.

Ni chaiff is-asiantiaid ar gyfer etholiad y Senedd fod yn bresennol ar yr un pryd ag y mae'r asiant etholiadol yn bresennol.

### Y Swyddog Canlyniadau a'i staff

Gall y Swyddog Canlyniadau a'i staff ymweld yn ystod y dydd. Gall hyn fod er mwyn cyflawni dyletswyddau fel danfon offer ychwanegol, cynnal arolygiad o'r orsaf bleidleisio neu gasglu papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi cael eu cyflwyno yn yr orsaf bleidleisio gan bleidleiswyr.

### Ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol ac asiantiaid pleidleisio

Mae gan bob ymgeisydd sy'n ymladd yr etholiad a'r asiantiaid etholiadol yr hawl i fynd i mewn ac aros mewn gorsaf bleidleisio ond ni chânt amharu ar y broses bleidleisio na cheisio canfasio pleidleiswyr. Dim ond un ymgeisydd ar restr plaid benodol all fod yn bresennol ar unrhyw un adeg.

Gellir penodi asiantiaid pleidleisio i weithio ar ran ymgeiswyr ar ddiwrnod yr etholiad. Mae gan asiantiaid pleidleisio hawl i fynd i mewn ac aros yn yr orsaf bleidleisio ac i arsylwi ar y pleidleisio. Prif bwrpas eu penodiad yw canfod cambersonadu - hynny yw, pobl yn pleidleisio'n anghyfreithlon yn enw pleidleisiwr arall. Ni ellir derbyn mwy nag un asiant pleidleisio ar yr un pryd i orsaf bleidleisio ar ran yr un blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol. Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi hysbysu'r Swyddog Llywyddu ymlaen llaw os oes unrhyw asiant pleidleisio wedi'i benodi i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio.

Efallai y bydd asiantiaid pleidleisio am nodi ar eu copi eu hunain o'r gofrestr etholwyr pwy sydd wedi pleidleisio, ond ni allant fynd â'r copi hwn o'r gofrestr sydd wedi'i farcio allan o'r orsaf bleidleisio tan ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau. Rhaid iddynt beidio ag ymyrryd â'r broses bleidleisio.

Rhaid iddynt beidio ag ymgyrchu na chanfasio pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os ydynt yn gwisgo rhosglwm neu fathodyn, dylai fod yn blaen ond gall ddangos enw ymgeisydd, plaid a/neu arwyddlun. Mae ganddynt hawl i arsylwi'r gwaith o baratoi ac agor yr orsaf bleidleisio a'i chau a gallant ychwanegu eu sêl at y blwch pleidleisio ar ôl i'r orsaf bleidleisio gau (ond nid adeg agor y bleidlais). Yn ystod oriau pleidleisio, dylid rhoi asiantiaid pleidleisio sy'n bresennol wrth fwrdd ar wahân sy'n ddigon agos i arsylwi a chlywed y gweithgareddau, ond nid mewn sefyllfa a fyddai'n peryglu cyfrinachedd y bleidlais.

### Swyddogion yr Heddlu ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio

Gall swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu sydd ar ddyletswydd fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg, er mai dyletswydd y Swyddog Llywyddu yw cadw trefn yn yr orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 6 am wybodaeth am ddiogelwch yn yr orsaf bleidleisio).

### Cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig


Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac unigolion eraill sydd wedi'u hachredu drwy gynllun arsylwyr swyddogol y Comisiwn hawl i fynychu holl weithgaredd gorsafoedd pleidleisio. Nid oes angen iddynt roi gwybod ymlaen llaw ble maent yn bwriadu arsylwi, ond rhaid i bob arsylwr ddangos prawf ffotograffig o bwy ydynt ac ni ddylid caniatáu iddynt arsylwi

gweithgaredd heb hyn (gweler yr enghreifftiau isod).

Enghraifft o ID a roddir i gynrychiolwyr y Comisiwn (pinc):




Enghraifft o ID a roddir i arsylwyr achredig (arian):




Gellir bob amser wirio statws unigolion sy'n ceisio cael mynediad i orsafoedd pleidleisio fel arsylwyr gyda'r swyddfa etholiadau.

Mae cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig yn cytuno i gadw at God Ymddygiad, sy'n cynnwys cytundeb na fyddant yn ymyrryd ag unrhyw weithgaredd. Caiff Swyddogion Llywyddu ofyn i arsylwyr (ond nid cynrychiolwyr y Comisiwn) adael yr orsaf bleidleisio, ond dim ond os ydynt yn:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro'r broses bleidleisio yn fwriadol
- gofyn i bleidleiswyr beth yw eu dewis o ran pleidleisio

Os symudir arsylwr o'r orsaf bleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ddarparu nodyn i'r arsylwr yn nodi'r rhesymau pam y'i symudwyd.

Dylai Swyddogion Llywyddu hefyd gofnodi unrhyw ddigwyddiadau o'r fath a rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau cyn gynted â phosibl.

Ni fydd gan unrhyw arsylwr a symudir yn yr amgylchiadau uchod hawl i fynd yn ôl i mewn i'r orsaf bleidleisio ar gyfer gweddill y pleidleisio.

Er mwyn sicrhau bod y bleidlais yn cael ei chynnal yn ddiogel ac yn effeithiol, mae gan Swyddogion Llywyddu hawl i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig (ond nid cynrychiolwyr y Comisiwn) sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio am gyfnod penodol - er enghraifft, 30 neu 60 munud. Os bydd amgylchiadau'n codi lle, oherwydd nifer yr arsylwyr sydd eisoes yn bresennol, mae risg i gynnal y broses yn ddiogel ac yn effeithiol, efallai y bydd angen i chi gyfyngu dros dro ar nifer yr arsylwyr a/neu faint o amser y gall arsylwyr aros yn yr orsaf bleidleisio, er mwyn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â'r bleidlais yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes gan unrhyw swyddog hawl i wahardd pob arsylwr o'r broses gyfan, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw un adeg. Pan gymerir camau o'r fath, dylid cofnodi hyn mewn log gorsaf bleidleisio.

Dylai Swyddogion Llywyddu gofnodi manylion unrhyw arsylwyr achrededig neu gynrychiolwyr y Comisiwn sy'n bresennol yn eu gorsaf bleidleisio.

Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol, a dylid gofalu nad yw'n llesteirio nac yn rhwystro'r broses arsylwi.

## Personau o dan 16 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr

Caiff personau o dan 16 oed fynd gyda phleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio ar gyfer y drefn bleidleisio. Gall Swyddogion Llywyddu gyfyngu ar nifer y rhai dan 16 oed a ganiateir yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw un adeg os ydynt o'r farn

bod eu presenoldeb yn rhwystro'r broses mewn unrhyw ffordd.

### Cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau

Er y bydd llawer o bleidleiswyr anabl yn gallu pleidleisio heb gymorth, ni fydd rhai yn gallu gwneud hynny, ac mae gan y rheini na allant wneud hynny yr hawl i ddod â rhywun gyda nhw i fwrw eu pleidlais. Wrth gyfathrebu â phleidleiswyr anabl sydd angen cymorth cydymaith, gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfarch y pleidleisiwr ac yn ymateb iddynt yn uniongyrchol, nid dim ond y cydymaith.

Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion, gan gynnwys pa gymorth y gall y Swyddog Llywyddu ei ddarparu.

## Gwiriadau terfynol o'r gwaith papur

Dylai'r Swyddog Llywyddu sicrhau bod y gofrestr etholwyr, y rhestr rhifau cyfatebol a'r papurau pleidleisio yn barod erbyn i'r orsaf bleidleisio agor.

Dylai papurau pleidleisio nad ydynt yn cael eu defnyddio, y papurau pleidleisio sydd wedi'u rhoi a dogfennau swyddogol eraill sydd i'w llenwi gan y Swyddog Llywyddu gael eu cadw'n ddiogel allan o gyrraedd pleidleiswyr.

### Papurau pleidleisio

Efallai na fydd papurau pleidleisio'n cael eu darparu fel dalennau rhydd, ond byddant yn fwyaf tebygol o gael eu darparu mewn llyfrau lle gellir eu datgysylltu wrth iddynt gael eu rhoi. Gwnewch yn siŵr bod y papurau pleidleisio yn y drefn gywir o ran rhifau a bod y rhifau'n cyfateb i'r rhai sydd wedi'u hargraffu ymlaen llaw ar y rhestr rhifau cyfatebol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn barod i roi'r papurau pleidleisio, gan ddechrau gyda'r papur pleidleisio sydd â'r rhif isaf. Bydd hyn yn arbed problemau cyfrifyddu ar ôl i'r orsaf bleidleisio gau.

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybod i chi am liw'r papurau pleidleisio sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr etholiadau hyn. Gwnewch yn siŵr bod y marc adnabod unigryw ar gefn y papurau pleidleisio a bod y marc swyddogol yn bresennol hefyd.

Dylid cadw papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar wahân i sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi mewn camgymeriad. Mae papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn hawdd eu hadnabod gan eu bod o liw gwahanol i'r papurau pleidleisio cyffredin.

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau lle dylid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar gael yn Atodiad 5b.

## Selio'r blychau pleidleisio

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gau a selio'r blwch pleidleisio ychydig funudau cyn 7am, ar ôl dangos i bawb sydd â hawl i fod yn bresennol eu bod yn wag. Mewn rhai achosion, er enghraifft, oherwydd nifer yr etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio, mae'n bosibl bod mwy nag un blwch pleidleisio wedi'i roi i'r Swyddog Llywyddu. Os felly, rhaid selio pob blwch pleidleisio, ar ôl dangos i'r rheini sydd â hawl i fod yn bresennol eu bod yn wag, cyn dechrau pleidleisio. Os byddwch yn cael unrhyw flychau ychwanegol, dylid storio'r rhain yn ddiogel o'r golwg nes bydd eu hangen.

Mae dyluniad y blychau pleidleisio'n amrywio, felly hefyd y dull o'u selio. Pa bynnag ddull a ddefnyddir, gwnewch yn siŵr bod y blwch pleidleisio wedi'i ddiogelu'n iawn. Ar y cam hwn, ni ddylid caniatáu i ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol nac asiantiaid pleidleisio osod eu seliau ar y blwch pleidleisio: dim ond ar ôl i'r orsaf bleidleisio gau y gellir atodi eu seliau.

# 5. Diwrnod pleidleisio: agor a chynnal y bleidlais

Bydd y bleidlais yn cael ei chynnal rhwng 7am a 10pm.

## Agor yr orsaf bleidleisio

Efallai y bydd nifer o etholwyr yn aros i'r orsaf bleidleisio agor. Cyfarchwch nhw a'u gwahodd i mewn cyn gynted ag y mae'n 7am. **Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio cyn 7am.**

## Dyrannu rolau mewn gorsafoedd pleidleisio

Argymhellir y dylai un person fod yn gyfrifol am y gofrestr etholwyr a'r papurau pleidleisio, a dylai person arall fod yn gyfrifol am sicrhau bod rhif yr etholwr yn cael ei gofnodi'n gywir yn y rhestr rhifau cyfatebol.

Dylai staff fod yn barod i weithio'n hyblyg yn yr orsaf bleidleisio. Er enghraifft, mewn rhai gorsafoedd pleidleisio, neu lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr un lleoliad, gellid gosod aelod o staff wrth fynedfa'r orsaf bleidleisio i roi gwybodaeth i bleidleiswyr am y broses bleidleisio.

Efallai bod y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch sut y dylid dyrannu gwaith, a dylech ddilyn y cyfarwyddiadau hynny.

## Crynodeb o'r drefn bleidleisio

I'r rhan fwyaf o bleidleiswyr sy'n dod i'r orsaf bleidleisio, bydd y broses bleidleisio yn syml. Mae trosolwg o'r gweithdrefnau i'w dilyn yn yr amgylchiadau hyn wedi'i nodi isod. Ceir esboniad manylach o bob cam yn nes ymlaen yn y bennod.

### Cam un - gwirio'r pleidleisiwr

- Cyfarchwch yr etholwr.
- Gofynnwch iddynt gadarnhau eu henw a'u cyfeiriad.
- Dewch o hyd i'r etholwr ar y gofrestr a gwnewch yn siŵr ei fod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad.

### Cam dau - marcio'r gofrestr

- Marciwch y gofrestr etholwyr yn erbyn (ond nid drwy) rhif yr etholwr drwy osod llinell syth yn erbyn cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.
- Galwch rif ac enw'r etholwr.

### Cam tri - rhoi'r papur pleidleisio

- Ysgrifennwch rif yr etholwr (gan gynnwys llythrennau cyfeirnod y dosbarth etholiadol os nad ydynt wedi'u hargraffu ymlaen llaw) ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ymyl rhif y papur pleidleisio sydd i'w roi.
- Sicrhewch fod y papur pleidleisio yn cynnwys marc swyddogol wedi'i argraffu ymlaen llaw (e.e. cod bar neu ddyfrnod). Os nad ydyw, dilynwch y weithdrefn a nodir o dan 'beth sy'n digwydd os nad yw'r papur pleidleisio'n cynnwys y marc swyddogol?' ar dudalen 18.
- Plygwch y papur pleidleisio, a'i roi i'r pleidleisiwr fel y gall weld yr holl ymgeiswyr a phleidiau ar y papurau.

### Cam pedwar – pleidleisio

- Gwnewch yn siŵr bod pleidleiswyr yn mynd i'r bythau pleidleisio'n unigol er mwyn diogelu eu hawl i bleidlais gyfrinachol. Ni chaniateir i unrhyw un arall fynd gyda phleidleisiwr i fwth pleidleisio oni bai bod pleidleisiwr sy'n anabl neu nad yw'n gallu darllen wedi gofyn am gymorth i bleidleisio (gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am bleidleisio gyda chymorth cydymaith), neu fod plentyn yn dod gyda phleidleisiwr.

- Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papurau pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.
- Cyn i'r pleidleisiwr roi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, dylai blygu'r papur pleidleisio a dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu.
- Dywedwch 'hwyl fawr' a diolchwch i'r pleidleisiwr wrth iddo adael yr orsaf bleidleisio.

Mae'r atodiadau yn y llawlyfr hwn yn dangos beth i'w wneud pan fydd rhywbeth anghyffredin yn digwydd, e.e. sefydlu hawl i bleidleisio, a delio â phleidleiswyr dienw, pleidleiswyr drwy ddirprwy a phleidleiswyr brys drwy ddirprwy. Dylai Swyddogion Llywyddu ddarllen yr adrannau hyn cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn bod yn barod.

Cofiwch ddilyn pob cam o'r broses yn ofalus neu gallai'r pleidleisiwr gael ei ddifreinio'n anfwriadol.

## Cam un - gwirio'r pleidleisiwr

Cyfarchwch yr etholwyr wrth iddynt ddod at y bwrdd. Os oes dwy orsaf bleidleisio yn yr ystafell, gwnewch yn siŵr bod etholwyr yn mynd i'r un gywir. Dylid arddangos arwyddion yn rhestru strydoedd neu gyfeiriadau pob gorsaf a dylai staff yr orsaf bleidleisio fod wrth law i roi arweiniad i etholwyr.

Mae'r rhan fwyaf o etholwyr yn dod â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw i'w ddangos i'r Clerc Pleidleisio er nad yw hyn yn ofyniad ar gyfer y rhan fwyaf o bleidleiswyr. Cynigiwch y cerdyn pleidleisio hwn yn ôl i'r etholwr: bydd yn ei helpu i roi gwybodaeth i'r rhifwyr y tu allan os mai dyna yw ei ddymuniad. Os bydd yr etholwr yn gwrthod y cerdyn pleidleisio, dylai'r Clerc Pleidleisio gael gwared â'r cerdyn yn ddiogel.

Oni bai fod gan etholwr gofnod dienw, rhaid i'r Clerc Pleidleisio wneud y canlynol:

- cadarnhau enw a chyfeiriad yr etholwr a gwneud yn siŵr ei fod ar y gofrestr etholwyr ac yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau
- tynnu llinell syth yn erbyn (ond nid drwy) eu cofnod ar y gofrestr etholwyr.
- darllen enw'r etholwr, rhif yr etholwr a chyfeirnod y dosbarth etholiadol ar y gofrestr etholwyr (mae hyn yn gam diogelu i atal cambersonadu).

**Dim ond etholwyr sydd â chofnodion dienw ar y gofrestr, a'u dirprwyon, sy'n gorfod dangos eu cerdyn pleidleisio, neu gerdyn pleidleisio drwy ddirprwy, er mwyn pleidleisio.**

Y rheswm am hyn yw bod etholwyr sydd â chofnod dienw yn cael eu cofrestru heb gyfeiriad at eu henw na'u cyfeiriad er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed. Dychwelwch y cerdyn pleidleisio i unrhyw etholwyr o'r fath ar ôl i chi farcio eu cofnod ar y gofrestr. I gael esboniad o'r drefn bleidleisio ar gyfer etholwyr dienw, gweler Atodiad 4.

### Enwau pwy sydd ar y gofrestr etholwyr?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gofrestr etholwyr yn cynnwys enwau'r holl etholwyr a ddyrannwyd i'r orsaf bleidleisio. Efallai y bydd rhai etholwyr wedi cofrestru'n ddienw a byddant yn ymddangos heb gyfeiriad at eu henw na'u cyfeiriad. Bydd eu cofnod ar y gofrestr yn cynnwys eu rhif etholwr a'r llythyren '**N**', a bydd i'w weld ar ddiwedd y gofrestr o dan yr adran 'etholwyr eraill'.

Ynghyd â'u henw, dim ond rhif etholwr a chyfeiriad sydd gan y rhan fwyaf o etholwyr. Mae'r etholwyr hyn yn gymwys i bleidleisio mewn unrhyw etholiad. Bydd gan rai etholwyr hefyd lythyren neu ddyddiad cyn eu henw. Mae'r llythrennau hyn yn dangos eu bod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau penodol ac mae'r dyddiad yn nodi pryd y byddant yn cyrraedd oed pleidleisio.

### Pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd?

- Etholwyr heb unrhyw lythrennau na dyddiadau cyn eu henw.

- Etholwyr gyda chofrestriad dienw sydd heb lythyren wrth ymyl eu cofnod ar wahân i'r llythyren '**N**'.
- Etholwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn (oni bai fod ganddynt hefyd lythyren wrth ymyl eu cofnod yn nodi nad ydynt yn gymwys) - mae'r ffigurau a argraffwyd cyn cofnod etholwr yn dangos y dyddiad y daw'r etholwr hwnnw'n 16 oed.
- Etholwyr â '**B**' cyn eu henw* - dinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) yw'r rhain (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta). Cânt bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac etholiadau llywodraeth leol.
- Etholwyr â '**G**' cyn eu henw* - dinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) yw'r rhain sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.
- Etholwyr â '**J**' cyn eu henw* - mae'r rhain yn etholwyr sydd wedi'u cofrestru o ganlyniad i'r cynlluniau peilot ar gyfer Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig, sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.
- Etholwyr â **'L'** cyn eu henw* - mae'r rhain yn etholwyr sy'n cael eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac etholiadau llywodraeth leol.
- Etholwyr â '**M**' cyn eu henw* - dinasyddion tramor cymwys yw'r rhain sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.

* Ar gyfer etholwr sydd wedi cofrestru'n ddienw, byddai unrhyw lythyrau'n ymddangos cyn y llythyren '**N**', gan nad yw enwau etholwyr o'r fath wedi'u cynnwys ar y gofrestr etholwyr.

### Pwy na chaiff bleidleisio yn etholiadau'r Senedd?

- Etholwyr gyda dyddiad geni wrth ymyl eu henw sy'n dangos na fyddant yn 16 oed tan ar ôl y diwrnod pleidleisio.
- Etholwyr sydd ag '**A**' cyn eu henw* - pleidleiswyr yw'r rhain sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post ac felly nid ydynt yn gallu pleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio.
- Etholwyr sydd ag **'F'** cyn eu henw* - mae'r rhain yn etholwyr tramor sy'n cael pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU yn unig.

### Beth fydd yn digwydd os bydd y gofrestr etholwyr yn nodi na chaiff yr etholwr bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio?

Os yw'r gofrestr etholwyr yn nodi na all yr etholwr bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, cyfeiriwch yr etholwyr hyn at y Swyddog Llywyddu. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y Swyddog Llywyddu yn gofyn y cwestiynau rhagnodedig iddynt (gweler Atodiad 5a).

## Cam dau - rhoi'r papur pleidleisio

Mae'r papurau pleidleisio wedi'u rhifo a dylent gyfateb i'r rhifau sydd wedi'u rhagargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol. Rhaid i bapurau pleidleisio gael eu dosbarthu mewn trefn rifol gaeth gan ddechrau gyda'r rhif isaf yn y swp. Fel arall, bydd problemau'n codi ar ôl i'r orsaf bleidleisio gau wrth gwblhau cyfrif y papurau pleidleisio.

Os dangosir ar y gofrestr etholwyr bod yr etholwr yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad a'i fod, os oes angen, wedi ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 5a am y cwestiynau rhagnodedig), yna rhaid rhoi papurau pleidleisio i'r pleidleisiwr.

Rhaid i'r Clerc Pleidleisio (neu'r Swyddog Llywyddu) gyda'r papurau pleidleisio wneud y canlynol:

- dyrannu'r papur pleidleisio

- darllen rhif y papur pleidleisio
- sicrhau bod y papur pleidleisio'n dwyn y marc adnabod unigryw a'r marc swyddogol
- plygu'r papur pleidleisio, a'i roi i'r pleidleisiwr fel y gall weld yr holl ymgeiswyr a phleidiau ar y papur

Rhaid i'r Clerc Pleidleisio (neu'r Swyddog Llywyddu) sydd â'r rhestr rhifau cyfatebol ysgrifennu rhif etholwr y pleidleisiwr yn erbyn rhif y papur pleidleisio sy'n cael ei roi ar y rhestr rhifau cyfatebol.

Nodwch rif yr etholwr ar y rhestr(au) rhifau cyfatebol bob tro. **Peidiwch ag ysgrifennu dim byd ar y papurau pleidleisio eu hunain.**

### Beth fydd yn digwydd os nad yw'r papur pleidleisio yn dwyn y marc adnabod unigryw?

**Rhaid** i bob papur pleidleisio ddwyn marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio. Gall hyn fod ar sawl ffurf, er enghraifft, cod bar wedi'i argraffu neu ddilyniant o lythrennau a rhifau. Dylai'r Swyddog Canlyniadau, neu ei staff, hysbysu'r Swyddogion Llywyddu yn y sesiwn hyfforddi ynghylch ffurf y marc adnabod unigryw.

Os nad yw'r marc adnabod unigryw ar yr holl bapurau pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu hysbysu'r swyddfa etholiadau ar unwaith. Os mai dim ond rhai papurau sydd heb y marc, dim ond y papurau pleidleisio hynny sy'n cynnwys y marc adnabod unigryw y dylai'r Swyddog Llywyddu eu rhoi, a dylai hefyd roi gwybod i'r swyddfa etholiadau am y sefyllfa.

### Beth fydd yn digwydd os nad yw'r papur pleidleisio'n cynnwys y marc swyddogol?

Bydd y marc swyddogol yn cael ei ragargraffu ar y papur pleidleisio. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn nodi beth fydd y marc swyddogol yn y sesiwn hyfforddi. **Rhaid** i bob papur pleidleisio ddwyn marc swyddogol. Bydd unrhyw bapur pleidleisio sydd heb y marc swyddogol yn cael ei wrthod yn y cyfrif.

Os dylai'r papurau pleidleisio gynnwys, ond nad ydynt yn cynnwys, marc swyddogol wedi'i ragargraffu fel y nodir gan y Swyddog Canlyniadau, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau.

Efallai y gallwch greu marc swyddogol yn fyrfyfyr. Er enghraifft, defnyddiwch bin bawd i dyllu'r papur pleidleisio ychydig o weithiau cyn iddo gael ei roi. Dylai'r Swyddog Llywyddu gofnodi'r marc byrfyfyr a nodi rhifau'r papurau pleidleisio cyntaf ac olaf a roddwyd ac a stampiwyd yn y modd hwn. Dylid cyflwyno hwn gyda'r papurau pleidleisio yn y cyfrif.

## Cam tri - pleidleisio

Rhaid i bleidleiswyr farcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio ac yna plygu'r papur pleidleisio eto fel na fydd neb yn gweld sut maent wedi pleidleisio. Dylai pleidleiswyr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu neu'r Clerc Pleidleisio cyn ei roi yn y blwch pleidleisio.

### Beth yw'r weithdrefn os bydd pleidleisiwr yn gwneud camgymeriad ac yn difetha papur pleidleisio?

**Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd.**

Weithiau bydd pleidleiswyr yn gwneud camgymeriadau, e.e. drwy wneud marc yn erbyn yr ymgeisydd neu'r blaid 'anghywir'. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gymryd y papur pleidleisio sydd wedi'i ddifetha ac ysgrifennu 'wedi'i ganslo' arno cyn ei roi yn yr amlen sydd wedi'i darparu. **Peidiwch â rhoi'r papur pleidleisio sydd wedi'i ddifetha yn y blwch pleidleisio.** Ar ôl rhoi papur pleidleisio sydd wedi'i ddifetha yn y blwch pleidleisio, ni ellir rhoi papur pleidleisio arall.

Rhowch bapur pleidleisio newydd i'r pleidleisiwr yn lle'r papur pleidleisio sydd wedi'i ddifetha. Peidiwch ag anghofio ysgrifennu rhif yr etholwr yn erbyn rhif newydd y papur pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol ac ysgrifennu 'wedi'i ganslo' wrth rif yr etholwr ar gyfer y papur pleidleisio a ganslwyd. Rhaid i'r

Swyddog Llywyddu hefyd gofio sicrhau bod unrhyw bapur pleidleisio newydd yn dwyn y marc swyddogol.

Ar ôl i'r orsaf bleidleisio gau, rhaid i'r Swyddog Llywyddu gyfrif ac yna gofnodi nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd ar gyfrif y papurau pleidleisio.

### Beth os yw papur pleidleisio eisoes wedi cael ei roi a bod yr etholwr yn penderfynu nad yw ei eisiau

Unwaith y bydd papur pleidleisio wedi'i drosglwyddo i'r etholwr, ni ellir ei ganslo (oni bai ei fod wedi'i ddifetha). Felly, dylai'r Swyddog Llywyddu geisio darbwyllo'r etholwr i roi'r papur pleidleisio heb ei farcio yn y blwch pleidleisio priodol.

Os bydd y pleidleisiwr yn gwrthod gwneud hyn, dylai'r Swyddog Llywyddu gymryd y papur pleidleisio a'i gadw'n ddiogel oddi wrth y papurau pleidleisio eraill a gwneud nodyn ar gyfrif y papurau pleidleisio priodol bod y papur wedi'i roi ond heb gael ei ddefnyddio. Ni ddylai'r Swyddog Llywyddu ail-roi'r papur pleidleisio hwn; fodd bynnag, gall roi'r papur pleidleisio hwn i'r etholwr y cafodd ei roi iddo'n wreiddiol os bydd yn dychwelyd yn ddiweddarach ac yn gofyn amdano.

### Darparu cymorth cyffredinol i bleidleiswyr

Mae gan staff pleidleisio ddyletswydd i gynorthwyo pleidleiswyr yn y broses bleidleisio. Cofiwch, cwsmeriaid yw pleidleiswyr: dylech eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar ac ystyried nad yw pob anabledd yn weladwy. Esboniwch i bleidleiswyr pa staff yn yr orsaf bleidleisio y gallant ofyn am gymorth ganddynt os bydd ei angen arnynt.

Efallai y bydd yna bobl sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, gan gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd newydd gael eu hetholfreinio a dinasyddion tramor cymwys neu'r rheini sydd heb bleidleisio ers peth amser, a allai fod angen cymorth gennych chi i ddeall y broses.

Peidiwch byth â bod yn anghwrtais, yn rhagfarnllyd nac yn nawddoglyd. Peidiwch â mynd yn ddig neu'n gynhyrfus, hyd yn oed pan fyddwch dan bwysau. Gwrandewch yn ofalus os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn i chi. Os na allwch ateb cwestiynau neu bryderon pleidleisiwr, cyfeiriwch ef at y Swyddog Canlyniadau.

Wrth roi cymorth cyffredinol, rhaid i staff gorsafoedd pleidleisio fod yn ofalus i beidio ag arwain pleidleiswyr i fwrw eu pleidleisiau dros ymgeisydd neu blaid benodol, na chynnig barn am unrhyw ymgeisydd neu blaid.

Mae nifer o gyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gael i bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Yn gyntaf oll, ceir y cyfarwyddiadau ar y papur pleidleisio ei hun. Ceir hefyd y posteri 'Sut mae pleidleisio yn yr etholiad hwn' a'r hysbysiad sy'n cael ei arddangos ym mhob bwth pleidleisio. Os bydd unrhyw bleidleisiwr yn gofyn am gymorth, mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn ddefnyddiol darllen y cyfarwyddiadau hyn iddynt neu gynnig gwybodaeth mewn fformat arall os yw'r Swyddog Canlyniadau wedi darparu hyn.

Efallai y bydd rhai pleidleiswyr yn dal i deimlo bod y cyfarwyddiadau'n aneglur. Gallant ofyn, er enghraifft, i rywun ddangos iddynt ble mae'r ymgeisydd neu'r blaid a ffefrir ganddynt, neu ofyn ble y dylent roi eu marc ar y papur pleidleisio. Dylai'r Swyddog Llywyddu ddarllen y cyfarwyddiadau sydd wedi'u hargraffu ar frig y papur pleidleisio a manylion yr ymgeiswyr a'r pleidiau yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

Dylai unrhyw offer neu adnoddau a ddarperir i'r orsaf bleidleisio gan y Swyddog Canlyniadau i gefnogi pleidleiswyr anabl gael eu cadw mewn golwg lawn a'u marcio'n glir fel y gall pleidleiswyr eu hadnabod a'u defnyddio'n hawdd.

Mae gweithdrefnau arbennig i'w dilyn wrth gynorthwyo pleidleiswyr anabl a phleidleiswyr ag anghenion ychwanegol. Disgrifir y rhain yn Atodiad 1.

Dylai'r iaith a ddefnyddir i gynorthwyo neu roi cyfarwyddiadau i bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio fod yn Gymraeg neu'n Saesneg. Fodd bynnag, efallai y bydd y Swyddog

Canlyniadau wedi darparu cyfarwyddiadau neu arweiniad mewn ieithoedd neu fformatau eraill, yn dibynnu ar ofynion yn y gymuned. Dylai'r Swyddog Llywyddu fod yn gyfarwydd â pha adnoddau sydd ar gael a darparu'r rhain fel y bo'n briodol.

Mewn rhai achosion eithriadol, efallai na fydd yr hysbysiadau a gyfieithwyd yn ddigonol nac yn briodol. Er enghraifft, efallai fod gan bleidleisiwr lefelau llythrennedd isel neu efallai fod ganddo gwestiwn nad yw'n cael ei gynnwys yn yr hysbysiadau. Yn yr amgylchiadau hynny, os gall staff gorsafoedd pleidleisio ddarparu gwybodaeth mewn iaith a siaredir gan y pleidleisiwr, yna gellir darparu cymorth mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg. Lle rhoddir cymorth mewn iaith arall, dylech esbonio i staff eraill ac i unrhyw asiantiaid neu arsylwyr pleidleisio sy'n bresennol pa gwestiwn a ofynnwyd a'r ymateb a roddwyd.

## Tystysgrifau cyflogaeth

Efallai y bydd rhai o staff yr orsaf bleidleisio wedi cael tystysgrif cyflogaeth. Llofnodir tystysgrifau o'r fath gan y Swyddog Canlyniadau, sy'n caniatáu i staff bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio arall yn yr etholaeth yn hytrach nag yn eu gorsaf bleidleisio benodedig. Yn yr un modd, gall plismon gyflwyno tystysgrifau o'r fath, wedi'u llofnodi gan arolygydd (neu uwch). Mewn achos o'r fath, bydd y Swyddog Llywyddu yn dilyn y weithdrefn safonol i roi papurau pleidleisio ac yna'n canslo'r tystysgrifau a'u rhoi yn yr amlen a ddarperir.

## Pleidleisiau post

Staff yr orsaf bleidleisio sy'n gyfrifol am dderbyn unrhyw bleidleisiau post (neu unrhyw ran o bleidlais bost, h.y. y papur pleidleisio drwy'r post neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post) a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio. I gael rhagor o fanylion am y weithdrefn pleidlais bost, gweler Atodiad 3.

## Cynnal a chadw'r man pleidleisio

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio'r man pleidleisio'n rheolaidd, gan gynnwys ar gyfer unrhyw groniad o etholwyr sy'n aros i bleidleisio, a sicrhau bod pleidleiswyr yn cael mynediad heb rwystr bob amser:

- Gwiriwch arwyddion a hysbysiadau a newid neu atgyweirio unrhyw rai sydd wedi cael eu difetha neu eu difrodi.
- Sicrhewch nad yw mynedfa'r orsaf bleidleisio, gan gynnwys unrhyw rampiau, wedi'i rhwystro.
- Pan fydd rampiau dros dro'n cael eu defnyddio, gwnewch yn siŵr eu bod yn eu lle'n iawn a gwnewch yn siŵr nad ydynt wedi dod yn rhydd yn ystod y dydd.
- Sicrhewch fod unrhyw offer neu adnoddau a ddarperir i'r orsaf bleidleisio gan y Swyddog Canlyniadau yn parhau i fod yn y golwg yn llawn ac yn hygyrch i bleidleiswyr. Os bydd unrhyw offer yn cael ei adael mewn bwth pleidleisio, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddychwelyd i'r ddesg.
- Dywedwch wrth unrhyw un sy'n ymgyrchu yn yr orsaf bleidleisio neu o'i hamgylch am stopio.
- Tynnwch ymaith unrhyw ddeunydd ymgyrchu a allai fod wedi cael ei adael yn yr orsaf bleidleisio.
- Gwnewch yn siŵr bod digon o olau i bleidleiswyr yn y bythau pleidleisio.
- Gwnewch yn siŵr bod y pinnau ysgrifennu/pensiliau yn dal yn y bythau a miniwch bensiliau os oes angen.
- Sicrhewch nad oes dim byd wedi cael ei adael yn y bythau, gan gynnwys papurau pleidleisio neu wybodaeth am blaid neu ymgeisydd penodol.
- Gwiriwch seliau/cloeon y blychau pleidleisio.
- Ysgwydwch y blwch pleidleisio neu defnyddiwch bren mesur neu gywasgydd blwch pleidleisio i wthio'r papurau pleidleisio i lawr os yw'r blwch yn ymddangos yn llawn.

- Cadwch yr orsaf bleidleisio, gan gynnwys unrhyw goridorau sy'n arwain i'r orsaf bleidleisio, yn lân, yn daclus ac yn glir o unrhyw beryglon.
- Cynhaliwch unrhyw fesurau iechyd a diogelwch ychwanegol yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau.
- Os byddwch yn sylwi ar unrhyw giwiau'n ffurfio, cymerwch gamau yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer delio â nhw.

# 6. Diwedd y pleidleisio

Rhaid i'r orsaf bleidleisio gau am 10pm, ond rhaid i unrhyw etholwyr cymwys sydd yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm, neu mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio at ddibenion pleidleisio (p'un a yw'r ciw hwnnw y tu mewn neu'n parhau y tu allan i'r orsaf bleidleisio) gael pleidleisio.

Os yw person yn yr orsaf bleidleisio neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio erbyn 10pm at ddibenion dychwelyd pleidleisiau drwy'r post, cânt wneud hynny ar ôl 10pm.

## Gweithdrefnau

- Gwiriwch ar y man pleidleisio, nid yn unig yn union cyn i'r gorsafoedd pleidleisio gau, ond yn rheolaidd yn y cyfnod cyn i'r gorsafoedd pleidleisio gau a chymerwch gamau i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y bydd yr holl etholwyr sy'n aros yn gallu cael papurau pleidleisio erbyn 10pm. Os nad yw hynny'n bosibl, cymerwch gamau i sicrhau y byddant i gyd yn yr orsaf bleidleisio neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio at ddibenion pleidleisio erbyn yr amser hwnnw. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau ar unwaith os bydd ciw yn bodoli neu'n cronni yn y cyfnod cyn diwedd y pleidleisio.
- Os oes mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr adeilad, gwnewch yn siŵr bod unrhyw un sy'n aros i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio gywir ar gyfer eu cyfeiriad.
- Gwnewch yn siŵr nad oes neb yn ymuno â'r ciw ar ôl 10pm.

  Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ciw o etholwyr yn aros i bleidleisio am 10pm. Gall hyn gynnwys:

  – rhoi tocynnau i adnabod etholwyr yn y ciw
  – gofyn i etholwyr symud i mewn i'r orsaf bleidleisio er mwyn i staff yr orsaf bleidleisio allu cau'r drysau y tu ôl i'r etholwyr olaf yn y ciw
  – gofyn i aelod o dîm yr orsaf bleidleisio farcio diwedd y ciw, er enghraifft drwy roi ei hun y tu ôl i'r etholwr diwethaf yn y ciw.
  – esbonio wrth unrhyw un sy'n cyrraedd ar ôl 10pm ac yn ceisio ymuno â'r ciw bod yr orsaf bleidleisio wedi cau ac, yn ôl y gyfraith, na ellir rhoi papurau pleidleisio iddynt. Efallai y bydd amgylchiadau pan fydd person sy'n marcio diwedd y ciw neu staff yn yr orsaf bleidleisio yn cael ei herio gan etholwr sy'n dymuno pleidleisio er ei fod wedi cyrraedd ar ôl 10pm. Ni ellir rhoi papurau pleidleisio i etholwyr o'r fath mewn unrhyw amgylchiadau. Mae canllawiau cyffredinol i'ch helpu i gynnal diogelwch yn yr orsaf bleidleisio ac o'i hamgylch ar gael yn Atodiad 6.
  – ni ddylid rhoi papurau pleidleisio i unrhyw un nad yw'n aros i bleidleisio naill ai yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, na chaniatáu iddynt gyflwyno eu pleidlais bost.
  – rhaid i unrhyw un sy'n cael papurau pleidleisio gael pleidleisio.

Yn ogystal â staff etholiadau, caniateir i'r canlynol fod yn bresennol ar ddiwedd y pleidleisio:

- yr ymgeiswyr
- asiantiaid etholiadol
- asiantiaid pleidleisio
- swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig

Ar ddiwedd y pleidleisio ac ar ôl i'r person olaf bleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio slot y blwch pleidleisio. Gall unrhyw ymgeisydd, asiant etholiadol neu asiant pleidleisio sy'n bresennol osod eu sêl arno hefyd.

Yn y cyfamser, dylai Clerc y Bleidlais dynnu'r holl arwyddion i lawr a thacluso'r ystafell. Os gofynnir iddynt wneud hynny, efallai y bydd gofyn i staff yr orsaf bleidleisio ddatgymalu dodrefn yr orsaf bleidleisio a dychwelyd yr ystafell i'w chyflwr gwreiddiol. Byddwch yn ofalus wrth symud eitemau trwm (gweler Atodiad 9 am ganllawiau ar iechyd a diogelwch).

Mae gan ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol ac asiantiaid pleidleisio hefyd hawl i fod yn bresennol pan fydd y gwaith papur yn cael ei gwblhau a phan fydd y gwahanol becynnau o ddogfennau yn cael eu selio fel y disgrifir isod. Mae ganddynt hefyd hawl i osod eu seliau eu hunain ar y pecynnau hyn ar yr adeg hon.

## Cwblhau'r gwaith papur

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu lenwi pob ffurflen swyddogol. **Byddwch yn ofalus wrth lenwi'r gwaith papur. Mae'n llawer pwysicach bod yn gywir nag yn gyflym.**

Wrth lenwi a dychwelyd y gwaith papur, dylech gyfeirio at unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau.

Mae'n ddigon posibl na fu angen rhai o'r ffurflenni swyddogol yn ystod y dydd; mae'n bosibl na roddwyd unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd ac mae'n bosibl na ddifethwyd unrhyw bapurau pleidleisio.

Os felly, llenwch y ffurflenni o hyd, gan nodi 'dim' lle bo angen.

### Rhestr wirio o ffurflenni swyddogol i'w llenwi gan y Swyddog Llywyddu

- cyfrif y papurau pleidleisio
- rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- y datganiad am nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidleisiau eu marcio gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleisiau post a ddanfonwyd i'r orsaf bleidleisio
- rhestr o'r pleidleisiau a gyflwynwyd

Mae'n haws cwblhau'r gwaith papur os yw'r holl ffurflenni swyddogol yn cael eu gosod allan gyda'u hamlenni cyfatebol.

Mae blaen pob un o'r amlenni swyddogol yn rhestru'r cynnwys. Llenwch gymaint o'r ffurflenni a'r amlenni â phosibl yn ystod y dydd, ymhell cyn diwedd y pleidleisio. Cofiwch gwblhau'r holl waith papur hyd yn oed os yw'n ymddangos nad oes dim i'w adrodd.

Efallai y bydd adegau, er enghraifft, pan na fydd papurau pleidleisio a gyhoeddwyd wedi cael eu rhoi neu pan na fydd etholwyr wedi difetha unrhyw bapurau pleidleisio. Yn yr achosion hynny, dylai'r Swyddog Llywyddu lenwi adrannau perthnasol cyfrifon y papurau pleidleisio o hyd.

### Rhestr wirio o becynnau ac amlenni swyddogol a'u cynnwys

- cyfrif y papurau pleidleisio - cadwch hwn gyda'r blwch pleidleisio
- y pecyn sy'n cynnwys y pleidleisiau post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio - cadwch hwn gyda'r blwch pleidleisio
- papurau pleidleisio heb eu defnyddio ac wedi'u difetha (cyffredin a rhai a gyflwynwyd) - os nad ydynt yn ffitio yn yr amlen, lapiwch yr amlen o'u cwmpas a'u clymu'n dynn gyda llinyn neu fandiau elastig
- y papur pleidleisio a gyflwynwyd
- y copi wedi'i farcio o'r gofrestr etholwyr (gan gynnwys unrhyw hysbysiadau wedi'u marcio fel y disgrifir yn Atodiad 2) a rhestr o ddirprwyon
- y rhestr rhifau cyfatebol wedi'i chwblhau
- y tystysgrifau cyflogaeth
- y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd, y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion, y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu, y datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu

pleidleisiau wedi'u marcio gan y Swyddog Llywyddu, y rhestr o gywiriadau gwallau ar ddiwrnod y bleidlais a'r datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau

### Cyfrif y papurau pleidleisio

Cyfrif y papurau pleidleisio yw'r pwysicaf o'r holl waith papur a dylid ei lenwi'n gyntaf a'i lenwi'n ofalus. Mewn llawer o achosion, bydd adran gyntaf cyfrif y papurau pleidleisio wedi cael ei llenwi ymlaen llaw gan y Swyddog Canlyniadau. Dyletswydd y Swyddog Llywyddu yw llenwi gweddill y ffurflen.

Mae cyfrif y papurau pleidleisio yn cysoni nifer y papurau pleidleisio yr ymdriniwyd â hwy gan y Swyddog Llywyddu. Cofiwch gyfrif nifer y papurau pleidleisio a roddwyd yn unol â'r rhestr rhifau cyfatebol a chynnwys hyn ar gyfrifon y papurau pleidleisio. Mae'r ffurflen yn dibynnu ar rifau cyfresol y papurau pleidleisio a dyna pam ei bod mor bwysig rhoi papurau pleidleisio mewn trefn rifol fel y'u hargraffwyd ymlaen llaw ar y rhestr rhifau cyfatebol.

Rhaid i gyfrif y papurau pleidleisio a'r pecyn sy'n cynnwys y pleidleisiau post gael eu danfon gyda'r blwch pleidleisio a dogfennau eraill i'r ganolfan ddilysu a chyfrif yn unol â chyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau - peidiwch â'u colli na'u rhoi mewn amlen arall neu gyda deunyddiau etholiadol eraill gan y gallai hyn achosi problemau ac oedi wrth gyfrif.

### Gweddill y gwaith papur

Dylai Swyddogion Llywyddu wedyn gwblhau gweddill y gwaith papur. Llenwch a llofnodwch y ffurflenni eraill ar y rhestr wirio (gweler uchod). Cofiwch lenwi'r ffurflenni gyda 'dim' os nad oedd eu hangen yn ystod y dydd.

## Pacio deunyddiau yn yr orsaf bleidleisio

Yn eu trefn, paciwch y deunyddiau yn eu hamlenni a'u pecynnau swyddogol. Rhaid rhoi'r rhestr rhifau cyfatebol a'r papurau pleidleisio heb eu defnyddio ar wahân yn yr amlenni priodol. Dylid hefyd cadw pleidleisiau post (neu rannau o bleidleisiau post) a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio ar wahân gan y bydd angen y rhain yn gyflym yn y ganolfan ddilysu a chyfrif.

Bydd nifer o sachau, bagiau neu gratiau wedi cael eu darparu i gludo'r gwaith papur a deunyddiau eraill yr etholiad yn ôl i'r ganolfan ddilysu a chyfrif. Gwnewch yn siŵr bod yr eitemau'n mynd yn y cynhwysydd priodol.

## Cludo deunyddiau etholiadol i'r ganolfan dilysu a chyfrif

Rhaid i'r blwch pleidleisio, cyfrif y papurau pleidleisio, amlen pleidleisiau post, sachau neu fagiau sy'n cynnwys yr amlenni swyddogol, a deunyddiau ysgrifennu a deunyddiau etholiadol eraill gael eu danfon i'r ganolfan dilysu a chyfrif.

Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi cyfarwyddiadau ynghylch cludo'r blwch pleidleisio a deunyddiau'r orsaf bleidleisio i'r ganolfan dilysu a chyfrif.

Os yw'r eitemau i gael eu danfon gan y Swyddog Llywyddu, bydd y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi cyfarwyddiadau ynghylch lleoliad y ganolfan dilysu a chyfrif a'r fynedfa sydd i'w defnyddio. Gellir gofyn i un o'r Clercod Pleidleisio gynorthwyo'r Swyddog Llywyddu os oes gormod i un person ei gario. **Ewch i'r ganolfan dilysu a chyfrif yn uniongyrchol ac yn ddi-oed.**

Dylai Swyddogion Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith os bydd unrhyw broblemau'n codi a allai achosi oedi cyn cyrraedd y ganolfan dilysu a chyfrif.

Weithiau, gellir gwneud trefniadau eraill i ddanfon y blwch pleidleisio a deunyddiau etholiad i'r ganolfan dilysu a chyfrif. Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau yn trefnu i'r deunyddiau gael eu casglu o'r orsaf bleidleisio a'u cludo i'r ganolfan dilysu a chyfrif.

**Peidiwch â gadael y blwch pleidleisio heb oruchwyliaeth ar unrhyw adeg a gwnewch yn siŵr mai dim ond i aelodau staff y**

**Swyddog Canlyniadau y caiff y blwch pleidleisio ei ddanfon.**

Yn olaf, cyn gadael yr orsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr bod unrhyw ddeunydd gwastraff yn cael ei waredu'n briodol a bod yr adeilad yn cael ei adael yn lân ac yn daclus. Sicrhewch fod unrhyw allweddi'n cael eu dychwelyd i'r person priodol.

# Atodiad 1 – Cymorth pleidleisio i bleidleiswyr anabl a phleidleiswyr ag anghenion ychwanegol

Mae'r canllawiau canlynol wedi'u cynllunio i helpu i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i bleidleisio. Mae'n rhoi gwybodaeth a chyngor ar y camau y gall staff gorsafoedd pleidleisio eu cymryd i gael gwared ar rai o'r rhwystrau a'r heriau y mae pleidleiswyr anabl a phleidleiswyr ag anghenion ychwanegol yn eu hwynebu wrth bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

## Ymwybyddiaeth hygyrchedd

Dylai pob pleidleisiwr gael yr hawl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.

Gwyddom fod pobl anabl yn wynebu rhwystrau rhag pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, sy'n cynnwys:

- ddim yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth bleidleisio
- dod ar draws rhwystrau ffisegol, gweledol, seicolegol a rhwystrau gwybodaeth wrth bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio

Mae pobl ddall a rhannol ddall yn wynebu rhwystrau ychwanegol oherwydd bod y dull o bleidleisio - drwy roi croes mewn lleoliad penodol ar ddarn o bapur - yn ymarfer gweledol yn bennaf.

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybodaeth i chi am ymwybyddiaeth hygyrchedd fel rhan o'ch hyfforddiant. Bydd bod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhwystrau i bleidleisio yn eich helpu i ddarparu cymorth i bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio.

Cofiwch:

- nid yw pob anabledd yn weladwy - er enghraifft, niwroamrywiaeth neu anableddau cudd fel cyflyrau iechyd meddwl
- efallai y bydd gan rai pleidleiswyr fwy nag un nam - er enghraifft, nam ar y golwg a dementia

Gall staff gorsafoedd pleidleisio gefnogi pleidleiswyr drwy:

- ystyried anghenion y person, nid dim ond anabledd penodol
- bod yn ymwybodol o unrhyw addasiadau a ganiateir a allai helpu'r pleidleisiwr i fwrw ei bleidlais yn ddiogel
- cyfathrebu'r broses bleidleisio yn glir - er enghraifft, os bydd y pleidleisiwr yn gofyn cwestiwn am wybodaeth ar hysbysiad, rhowch esboniad yn hytrach na'i gyfarwyddo i ddarllen yr hysbysiad
- rhoi gwybod bod cymorth ar gael os oes angen (gan gydnabod nad yw pob cyflwr neu nam yn weladwy)
- sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut i ddefnyddio unrhyw gyfarpar a ddarperir i gefnogi pleidleiswyr
- sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol y gallant ofyn am gymorth cydymaith. Gall y cydymaith helpu hyd at ddau berson yn yr un etholiad. Gall cydymaith y pleidleisiwr anabl fod yn unrhyw un os yw'n 16 oed neu'n hŷn.

Cofiwch y gall pleidleiswyr anabl ddod â'u hoffer eu hunain neu anifail cymorth gyda nhw.

Gall pleidleiswyr sy'n colli eu golwg ddefnyddio apiau testun-i-lais ar eu ffonau symudol neu gario offer cynorthwyol maint poced, fel chwyddwyr fideo, i'w helpu i ddarllen dogfennau yn y bwth pleidleisio neu ar y cyd â dyfais bleidleisio gyffyrddol.

Ni ddylid atal anifeiliaid cymorth rhag mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio.

Efallai y bydd gan bobl ddall a byddar ffon wen gyda bandiau coch arni neu harnais coch a gwyn ar gi tywys. Mae hyn yn dangos bod gan yr unigolyn nam ar ei olwg a nam ar ei glyw.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn mynnu na chynhigir gwasanaeth o safon is nag a gynigir i bleidleiswyr eraill i unrhyw berson anabl, gan gynnwys y rheini sydd â nam ar eu synhwyrau a nam symudedd. Rhaid gwneud addasiadau rhesymol fel nad yw pobl anabl dan anfantais sylweddol mewn unrhyw ffordd.

Ni all staff gorsafoedd pleidleisio eithrio person sydd wedi'i gofrestru fel etholwr neu sydd wedi'i gofnodi ar y rhestr dirprwyon rhag pleidleisio ar sail anabledd neu allu meddyliol.

## Offer a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio i gefnogi pleidleiswyr

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau ddarparu i bob gorsaf bleidleisio unrhyw offer sy'n rhesymol at ddibenion galluogi neu ei gwneud yn haws i bleidleiswyr bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.

Dylai'r offer canlynol fod ar gael o leiaf i gefnogi pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio:

- Cadeiriau/seddi - mae hyn yn rhoi lle i bleidleiswyr orffwys os nad ydynt yn gallu sefyll am gyfnodau hir ac i bleidleiswyr a fyddai'n hoffi treulio rhywfaint o amser yn meddwl cyn mynd i mewn i'r bwth pleidleisio. Yn ddelfrydol, dylid cael cymysgedd o gadeiriau gyda breichiau a heb freichiau.
- Chwyddwydrau - mae'r rhain yn cynyddu maint y testun ar ddogfen, gan gefnogi pleidleiswyr sydd â nam ar eu golwg i bleidleisio'n annibynnol.
- Dyfais bleidleisio gyffyrddol - mae hon yn rhoi cymorth i bleidleiswyr sydd â nam ar eu golwg i nodi eu pleidlais ar y papur pleidleisio yn y lle cywir.
- Bwth pleidleisio ar lefel cadeiriau olwyn - mae hyn yn galluogi pleidleiswyr sy'n defnyddio cadair olwyn i gael mynediad at arwyneb ysgrifennu is er mwyn iddynt allu bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol.
- Bathodynnau sy'n dangos pwy yw staff gorsafoedd pleidleisio - mae'r rhain yn ei gwneud yn haws i bleidleiswyr wybod pwy sy'n aelod o staff y gellir gofyn am gymorth ganddo.
- Gafaelion pensil - gall y rhain helpu pleidleiswyr sydd â namau deheurwydd i afael mewn pensil a'i ddefnyddio'n fwy annibynnol.
- Rampiau (ar gyfer adeiladau â grisiau) - mae'r rhain yn cefnogi mynediad i orsaf bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr sy'n defnyddio cadair olwyn neu sy'n cael trafferth defnyddio grisiau.
- Dyfeisiau hysbysu dros dro neu glychau drws dros dro ar gyfer unrhyw ddrysau sy'n gorfod aros ar gau yn ystod y dydd (er enghraifft, drysau tân) - mae'r rhain yn ffordd i bleidleiswyr roi gwybod i staff yr orsaf bleidleisio bod angen cymorth arnynt i agor y drws er mwyn iddynt allu mynd i'r orsaf bleidleisio. Nid oes angen gosod y rhain yn barhaol mewn adeilad a ddefnyddir fel gorsaf bleidleisio ond gellir eu gosod dros dro ar lefel hygyrch ar fwrdd neu gadair wrth ymyl unrhyw ddrysau sy'n gorfod aros ar gau.
- Goleuadau priodol - ceir goleuadau da mewn rhai gorsafoedd pleidleisio ond efallai y bydd angen goleuadau ychwanegol wrth y ddesg mewn rhai eraill i sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu gweld wynebau sta ff yn glir, ac yn y bythau pleidleisio i gefnogi pleidleiswyr i allu darllen a llenwi'r papur pleidleisio.
- Mannau parcio wedi'u neilltuo ar gyfer pleidleiswyr anabl (lle mae parcio ar gael yn y lleoliad) - mae hyn yn sicrhau bod pleidleiswyr anabl yn gallu parcio mor agos â phosibl at yr orsaf bleidleisio.

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau pa offer fydd ar gael yn eich gorsaf bleidleisio. Efallai y byddant hefyd yn darparu mathau eraill o gyfarpar i gefnogi pleidleiswyr i gymryd rhan. Byddwch yn cael cyfarwyddiadau gan y

Swyddog Canlyniadau ynghylch sut i weithio unrhyw gyfarpar y mae'n ei ddarparu.

Dylai'r offer i gefnogi pleidleiswyr anabl gael ei gadw'n weladwy a'i farcio'n glir fel y gall pleidleiswyr ei adnabod a chael gafael arno'n rhwydd.

### Dyfais bleidleisio gyffyrddol

Gall etholwr dall neu rannol ddall ddefnyddio'r ddyfais bleidleisio gyffyrddol i'w helpu i bleidleisio cyn belled ei bod yn cael ei rhoi ar y papur pleidleisio'n gywir. Gall pleidleiswyr sy'n colli eu golwg ddefnyddio apiau ar eu ffonau symudol neu gario offer cynorthwyol maint poced, fel chwyddwyr fideo, i'w helpu i ddarllen dogfennau. Gellid defnyddio'r rhain ar y cyd â'r ddyfais. Caiff y Swyddog Canlyniadau ddarparu dyfais sain i bleidleiswyr ei defnyddio ochr yn ochr â'r ddyfais bleidleisio gyffyrddol neu yn ei lle. Os darperir dyfais sain i'r orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio.

Rhaid i holl staff gorsafoedd pleidleisio wybod sut i ddefnyddio'r ddyfais a gallu egluro sut i'w defnyddio i bleidleiswyr dall neu rannol ddall.

Gwnewch yn siŵr ei bod yn ffitio'r papur pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio, ei bod wedi'i hatodi'n ddiogel i'r papur pleidleisio a bod y pleidleisiwr yn hyderus ynghylch ei defnyddio.

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn egluro sut mae'r ddyfais yn gweithio ond, yn gyffredinol, dylai'r pleidleisiwr:

- godi'r ffenestr(i) a ddewisir
- marcio'r papur pleidleisio
- cau'r ffenestr(i)
- gwahanu'r ddyfais oddi wrth y papur pleidleisio
- plygu a rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio
- dychwelyd y ddyfais i'r Swyddog Llywyddu

### Fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio

Gwnewch yn siŵr bod fersiwn print mawr y papur pleidleisio yn cael ei arddangos mewn man sydd wedi'i oleuo'n dda lle gall etholwyr ei weld yn hawdd cyn cael eu papur pleidleisio.

### Copi llaw o'r papur pleidleisio

Sicrhewch fod y copi llaw chwyddedig o'r papur pleidleisio ar gael i bleidleiswyr. Gall pleidleisiwr ddefnyddio'r copi chwyddedig yn y bwth pleidleisio fel cymorth i farcio ei bapur pleidleisio.

Yn ogystal â'r offer a ddarperir yn yr orsaf bleidleisio, mae mabwysiadu arferion ac ymddygiad drwy gydol y diwrnod pleidleisio sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r rhwystrau posibl i bleidleisio ar gyfer pleidleiswyr anabl yn helpu i wneud gwahaniaeth. Gallai'r rhain gynnwys:

- gwirio a oes mannau parcio ceir yn agos at fynedfa'r orsaf bleidleisio ar gael i bobl anabl eu defnyddio os nad oes rhai wedi'u cadw ar gyfer pobl anabl at y diben hwnnw
- gwirio'n rheolaidd bod arwyddion ar gyfer unrhyw fynediad arall i bobl anabl heb eu rhwystro
- sicrhau nad yw arwyddion wrth fynedfa'r orsaf yn rhwystro cadeiriau olwyn, y rheini sydd â phroblemau symudedd, na phleidleiswyr â nam gweledol
- gwirio'n rheolaidd bod unrhyw ramp a ddarperir yn aros yn ei le ac yn ddiogel
- cadw drysau dwbl ar agor i helpu i sicrhau mynediad da i bawb; fodd bynnag, gwnewch yn siŵr nad yw'r drysau hyn yn ddrysau tân
- gwneud yn siŵr bod matiau drysau yn lefel â'r llawr ac yn cael eu tynnu os gallent fod yn beryglus

## Cymorth i etholwyr nad ydynt yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio

Yn ddelfrydol, bydd eich gorsaf bleidleisio mewn adeilad cwbl hygyrch. Yn anffodus,

yn ymarferol, efallai na fydd hyn yn wir oherwydd mewn rhai ardaloedd efallai na fydd adeiladau hygyrch ar gael i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

Os na all etholwr fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio, caiff y Swyddog Llywyddu, ar ôl rhoi gwybod i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol, fynd â'r papur pleidleisio at yr etholwr y tu allan. Ar ôl i'r papur pleidleisio gael ei farcio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi'r papur wedi'i blygu yn y blwch pleidleisio ar unwaith. Mae'n hanfodol bod cyfrinachedd y bleidlais yn cael ei gynnal o dan bob amgylchiad. Ni ddylid gadael y blwch pleidleisio heb oruchwyliaeth na'i symud o'r orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

## Pleidleiswyr anabl sy'n gofyn am gymorth

Os gofynnir iddo wneud hynny, dylai'r Swyddog Llywyddu sicrhau bod etholwr yn cael cymorth priodol er mwyn gallu bwrw ei bleidlais. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r Swyddog Llywyddu egluro'r broses bleidleisio i'r etholwr, neu efallai y bydd yr etholwr yn gofyn am gymorth cydymaith.

Efallai y bydd rhai pleidleiswyr anabl yn gofyn am gymorth y Swyddog Llywyddu i farcio'r papur pleidleisio ar eu rhan. Os yw'r pleidleisiwr yn gwybod sut y mae'n dymuno pleidleisio, rhaid iddo gyfarwyddo'r Swyddog Llywyddu, ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio, i farcio'r papur pleidleisio ar ei ran yn unol â hynny. Sicrhewch na all yr un pleidleisiwr arall glywed y dewisiadau a fynegir gan y pleidleisiwr anabl yr ydych yn ei gynorthwyo. Os yw'n bosibl, dewiswch ran o'r orsaf bleidleisio lle na all sgwrs â thôn arferol gael eich clywed.

Weithiau, efallai na fydd y pleidleisiwr yn siŵr sut i bleidleisio. Os felly, dylai'r Swyddog Llywyddu ddarllen y cyfarwyddiadau sydd wedi'u hargraffu ar frig y papur pleidleisio a manylion yr ymgeiswyr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

Ar ôl i'r etholwr wneud penderfyniad, rhaid i'r Swyddog Llywyddu farcio'r papur pleidleisio yn unol â hynny. Os oes ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol neu asiantiaid pleidleisio yn bresennol, dylid eu gwahodd i wrando ar ac arsylwi'r Swyddog Llywyddu, er mwyn iddynt allu cadarnhau bod y papur pleidleisio wedi'i farcio yn unol â dymuniadau'r etholwr.

Os oes rhaid i'r Swyddog Llywyddu farcio'r papur pleidleisio ar ran etholwr, rhaid nodi enw'r pleidleisiwr ar y ffurflen swyddogol 'Rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu'. Ar ddiwedd y pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd lenwi'r 'Datganiad o nifer y pleidleiswyr y mae eu pleidleisiau wedi'u marcio gan y Swyddog Llywyddu'.

### Cymdeithion pleidleiswyr anabl

Fel arall, gall cydymaith gynorthwyo pleidleisiwr anabl, gyda chaniatâd y Swyddog Llywyddu, a rhaid iddo fod yn fodlon y byddai anableddau'r pleidleisiwr yn ei atal rhag pleidleisio heb gymorth.

Mae cydymaith y pleidleisiwr anabl yn unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn a gall helpu hyd at ddau berson yn yr un etholiad i'r Senedd. Dylai'r pleidleisiwr ofyn am ganiatâd y Swyddog Llywyddu i gael ei gynorthwyo gan ei gydymaith.

Mae'r gyfraith yn mynnu bod y cydymaith, nid y pleidleisiwr, yn llenwi datganiad syml, 'Datganiad gan gydymaith pleidleisiwr ag anableddau'. Mae'n ddefnyddiol i'r Swyddog Llywyddu lenwi'r datganiad ar ran y cydymaith a gofyn iddo wirio'r wybodaeth a llofnodi'r ddogfen.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu sicrhau ei fod yn egluro'r broses yn glir i'r etholwr ac i'w gydymaith.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gofnodi enw a rhif etholiadol y pleidleisiwr, yn ogystal ag enw a chyfeiriad y cydymaith, ar y ffurflen 'Rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion.'

## Helpu pleidleiswyr dall neu rannol ddall i farcio eu papur pleidleisio

Gall pleidleiswyr dall neu rannol ddall ofyn am gymorth gan y Swyddog Llywyddu neu gydymaith.

**Gwnewch y canlynol:**

- rhoi cyfarwyddiadau manwl i helpu pleidleiswyr o'r fath ganfod eu ffordd
- tywys y pleidleisiwr ar ei gyfarwyddyd (mae'n well gan y rhan fwyaf o bobl ddall neu rannol ddall gymryd braich yr helpwr)
- os gofynnir i chi, darllenwch yn glir y cyfarwyddiadau ar frig y papur pleidleisio a'r ymgeiswyr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio

**Peidiwch â:**

- chymryd yn ganiataol bod angen help - gofynnwch yn gyntaf bob amser
- tynnu sylw cŵn tywys drwy greu ffys neu eu hanwesu a pheidiwch â gafael yn y tennyn
- cyffwrdd â'r pleidleisiwr heb ofyn yn gyntaf a yw'n dymuno cael ei arwain

## Cynorthwyo pleidleiswyr byddar yn yr orsaf bleidleisio

Gall colli clyw amrywio o fod yn ysgafn i ddwys. Bydd rhai pobl sydd wedi colli eu clyw yn defnyddio Saesneg llafar ac efallai y byddant yn dibynnu ar ddarllen gwefusau i gyfathrebu. Efallai y bydd eraill yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf, er y gallant hefyd ddarllen gwefusau.

Gall person sydd wedi colli ei glyw wisgo cymhorthion clyw, er nad yw'r rhain yn adfer ei glyw yn llawn.

Os oes dolen sain wedi'i gosod mewn gorsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr ei bod ymlaen. Dylid ei defnyddio lle bynnag y bo modd i gefnogi hygyrchedd y broses etholiadol i bleidleiswyr sydd wedi colli eu clyw.

**Gwnewch y canlynol:**

- cael sylw'r person byddar cyn siarad
- tapio nhw'n ysgafn ar yr ysgwydd neu godi llaw arnynt
- wynebu'r person y siaradir ag ef/hi
- siarad yn glir, heb fod yn rhy araf, heb fod yn rhy gyflym a defnyddio symudiadau gwefusau normal - defnyddio ystumiau a mynegiant naturiol yr wyneb
- aros yn amyneddgar a gwneud yr un peth eto os oes angen
- defnyddio iaith glir
- os nad yw rhywun yn deall yr hyn rydych chi wedi'i ddweud, ceisiwch ei ddweud mewn ffordd wahanol
- os byddant yn gofyn i chi wneud hynny, siaradwch â pherthynas neu ffrind
- cynnal cyswllt llygad
- byddwch yn barod i ysgrifennu rhywbeth i lawr os yw'r person yn dal ddim yn deall yr hyn rydych chi'n ei ddweud
- dod o hyd i le addas i siarad, gyda goleuadau da, ac i ffwrdd oddi wrth sŵn a phethau sy'n tynnu sylw

**Peidiwch â:**

- gweiddi - mae'n ystumio eich wyneb a'ch llais ac mae'n edrych yn ymosodol
- rhoi unrhyw beth yn eich ceg
- gorchuddio eich ceg
- siarad yn rhy gyflym
- siarad yn rhy araf neu orwneud patrymau gwefusau
- troi i ffwrdd neu edrych i lawr
- siarad â golau llachar y tu ôl i chi - bydd hyn yn cysgodi eich wyneb
- cael unrhyw beth yn eich llaw os ydych chi'n ystumio
- ildio os nad yw'r person byddar yn deall ar unwaith

# Atodiad 2 – Ymdrin â phroblemau ar y gofrestr etholwyr

## Oedran - hawl i bleidleisio

Mae'n drosedd i bobl o dan 16 oed bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, boed hynny ar eu pen eu hunain neu gyda rhywun arall.

Os yw rhywun yn amlwg o dan 16 oed, dylid eu rhybuddio y byddant yn euog o drosedd os byddant yn pleidleisio yn yr etholiadau. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig, a rhaid i'r person eu hateb heb gymorth (gweler Atodiad 5a am y cwestiynau rhagnodedig). Os yw'r person yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio iddo. Ni cheir holi na gofyn am brawf oedran mewn unrhyw ffordd arall.

Dylid gwneud nodyn o enw, cyfeiriad ac unrhyw fanylion eraill y pleidleisiwr, gan gynnwys amser y digwyddiad a manylion unrhyw berson sy'n dod gyda'r pleidleisiwr. Dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau wedi hynny.

## Enwau wedi'u camsillafu a phleidleiswyr sydd wedi newid eu henw

Weithiau mae enw etholwr wedi cael ei gamsillafu neu mae'r enw wedi newid yn gyfreithiol ers iddo wneud cais i gofrestru, e.e. drwy briodas.

Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig i'r etholwr (gweler Atodiad 5a). Os yw'r pleidleisiwr yn ateb yn foddhaol, rhaid caniatáu iddo bleidleisio, a dylai'r Swyddog Llywyddu wneud nodyn o'r anghywirdeb a'i drosglwyddo i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Os yw'r etholwr yn mynnu ei fod yn dymuno i'r gwall gael ei gywiro cyn pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r swyddfa etholiadau i gael cyngor neu gyfeirio'r pleidleisiwr at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

## Etholwyr eraill

Ar ddiwedd rhai cofrestrau mae pennawd - 'Etholwyr eraill'. Nid oes gan etholwyr sy'n ymddangos yma, sy'n cynnwys etholwyr y lluoedd arfog a'r rheini sydd wedi cofrestru drwy ddatganiad o gysylltiad lleol, gymhwyster preswyl mwyach ond maent yn dal i allu pleidleisio (yn amodol ar hawl). Mae'n annhebygol y bydd etholwyr y lluoedd arfog wedi cael cerdyn pleidleisio. Fodd bynnag, bydd cardiau pleidleisio wedi cael eu postio at bob etholwr dienw a fydd, yn wahanol i etholwyr cyffredin, angen dangos eu cerdyn pleidleisio er mwyn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 4).

## Person nad yw ar y gofrestr etholwyr

Fel arfer, bydd y gofrestr etholwyr yn cynnwys pawb sydd â hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio honno. Os nad yw enw person yn ymddangos yng nghofrestr yr orsaf bleidleisio, gall hyn fod oherwydd nad yw'r person wedi'i gofrestru. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod camgymeriad wedi digwydd.

## Gwallau clercio ar y gofrestr

Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn canfod bod cais wedi'i lenwi'n gywir wedi dod i law ac mai dim ond o ganlyniad i gamgymeriad clercio y cafodd y person ei hepgor o'r gofrestr, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cywiro'r gwall hwn hyd at 9pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn darparu i'r person allu pleidleisio hyd at ddiwedd y pleidleisio am 10pm. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ganfod y camgymeriad naill ai cyn neu ar y diwrnod pleidleisio neu gan bleidleisiwr neu ddirprwy yn yr orsaf bleidleisio.

### Gwallau clercio a nodwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol cyn y diwrnod pleidleisio

Os canfyddir gwall cyn y diwrnod pleidleisio ond ar ôl i'r gofrestr gael ei chynhyrchu ar gyfer yr orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi darparu 'hysbysiad' ar wahân, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau, yn ogystal â'r gofrestr arferol. Rhaid marcio'r hysbysiad hwn yn hytrach na'r gofrestr, ond mae'r holl weithdrefnau eraill yr un fath, gan gynnwys selio hysbysiad o'r fath gyda'r gofrestr ar ddiwedd y pleidleisio.

### Camgymeriadau clercio a nodir gan y Swyddog Llywyddu ar y diwrnod pleidleisio

Os nad yw rhywun sy'n cyflwyno ei hun yn yr orsaf bleidleisio ar y gofrestr (neu'r hysbysiad) a'i fod yn mynnu ei fod wedi gwneud cais i gofrestru, dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio hyn ar unwaith at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

### Gwallau clercio a nodwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar y diwrnod pleidleisio

Os penderfynir bod cais wedi'i lenwi'n gywir wedi dod i law ac mai dim ond o ganlyniad i gamgymeriad clerigol y cafodd y person ei hepgor o'r gofrestr, rhaid cywiro'r gwall a bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhoi hysbysiad i'r Swyddog Llywyddu (naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, e.e. dros y ffôn).

### Gweithdrefn i ganiatáu i berson bleidleisio ar ôl cywiro gwall clerigol ar y diwrnod pleidleisio

Rhoddir cyfarwyddiadau ynghylch sut y bydd y wybodaeth yn cael ei chyfleu i'r Swyddog Llywyddu yn y sesiwn hyfforddi.

**Os yw'r hysbysiad yn cael ei gyfathrebu ar lafar**

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod ysgrifenedig o enw a rhif yr etholwr ar gofrestr yr orsaf bleidleisio a marcio'r cofnod hwn wrth roi'r papurau pleidleisio.

Rhaid cofnodi enw'r etholwr ar restr ar wahân hefyd. Dylid selio'r rhestr hon ar ddiwedd y pleidleisio gyda rhestrau penodedig eraill (gweler tudalen 23).

**Os yw'r hysbysiad yn cael ei gyfathrebu yn ysgrifenedig**

Dylai'r Swyddog Llywyddu farcio'r hysbysiad hwnnw yn yr un ffordd â phetai'n rhan o'r gofrestr, a rhoi papurau pleidleisio yn y ffordd arferol.

Rhaid selio'r hysbysiad a farciwyd gyda'r gofrestr ar ddiwedd y pleidleisio.

Rhaid cofnodi enw'r etholwr ar restr ar wahân hefyd. Dylid selio'r rhestr hon ar ddiwedd y pleidleisio gyda'r rhestrau penodedig eraill (gweler tudalen 23).

## Unrhyw berson arall nad yw ar y gofrestr etholwyr

Ni chaniateir i unrhyw un arall nad yw ar y gofrestr etholwyr (na'r hysbysiad) ar gyfer yr orsaf bleidleisio honno bleidleisio. Efallai bod y person wedi'i gofrestru i bleidleisio mewn dosbarth etholiadol gwahanol. Os oes angen rhagor o gymorth ar yr etholwr, cyfeiriwch ef at y swyddfa etholiadau.

# Atodiad 3 – Y weithdrefn ar gyfer pleidleiswyr post a phleidleiswyr drwy ddirprwy

## Pleidleiswyr post

Bydd gan etholwyr sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post lythyren '**A**' gyferbyn â'u henwau ar y gofrestr etholwyr sydd i'w defnyddio yn yr orsaf bleidleisio. Bydd yr enwau a'r cyfeiriadau lle anfonwyd y papurau pleidleisio drwy'r post yn cael eu dangos ar y rhestr o bleidleiswyr post. Ni chaniateir i etholwyr o'r fath bleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio, hyd yn oed os ydynt yn datgan nad ydynt wedi derbyn eu papurau pleidleisio drwy'r post.

Fodd bynnag, caniateir i bleidleisiau post wedi'u llenwi gael eu cyflwyno, gan y pleidleisiwr neu rywun ar ei ran, mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol. Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi cyfarwyddiadau i chi ar gyfer dychwelyd pleidleisiau post i'ch gorsaf bleidleisio. Dylai'r bleidlais bost fod mewn amlen wedi'i selio a rhaid i'r Swyddog Llywyddu ei rhoi, heb ei hagor, yn y pecyn a ddarperir.

Rhaid cadw'r pecyn yn ddiogel bob amser. Rhaid ei ddanfon i unrhyw staff a benodir i gasglu pleidleisiau post a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau, neu ei ddanfon i'r ganolfan dilysu a chyfrif ar ddiwedd y pleidleisio.

Ni ddylid rhoi pleidleisiau post yn y blwch pleidleisio.

### Casglu pleidleisiau post o orsafoedd pleidleisio

Caiff y Swyddog Canlyniadau drefnu i gasglu pleidleisiau post o orsafoedd pleidleisio yn ystod y diwrnod pleidleisio. Os cesglir pleidleisiau post o'r orsaf bleidleisio, dylid eu rhoi mewn pecyn, a ddylai gael ei selio. Gall asiantiaid pleidleisio, ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol hefyd ychwanegu eu seliau at y pecyn os ydynt yn dymuno.

### Beth sy'n digwydd os yw rhywun wedi'i restru fel pleidleisiwr post (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) ond yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost?

Ceir adegau pan fydd etholwr neu ddirprwy a benodwyd yn gofyn am bapurau pleidleisio ac yn canfod eu bod wedi'u marcio ar y gofrestr etholwyr fel pleidleisiwr post.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio'r cofnod ar y gofrestr etholwyr i gadarnhau bod yr etholwr neu'r dirprwy wedi'i farcio fel pleidleisiwr post. Dylai'r Swyddog Llywyddu egluro'r amgylchiadau i'r etholwr neu'r dirprwy ac os yw'n mynnu nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost, yna dylid dilyn y gweithdrefnau canlynol.

Os yw'r etholwr neu'r dirprwy yn meddu ar ei bleidlais bost, dylid ei gynghori i ddychwelyd hon yn y ffordd arferol, gan gofio y gellir cyflwyno papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u llenwi yn yr orsaf bleidleisio.

Ni ellir rhoi papurau pleidleisio cyffredin i etholwyr neu ddirprwyon y nodwyd eu bod wedi cael pleidlais bost yn yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, mae gan etholwr neu ddirprwy sy'n honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost ond sydd wedi'i restru fel pleidleisiwr post, hawl i gael papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

Fel arall, hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio, gall y Swyddog Canlyniadau roi pecyn pleidleisio drwy'r post arall iddynt. Dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr neu'r

dirprwy at y swyddfa etholiadau i gael cyngor ar y weithdrefn hon.

Os yw cyn 5pm ond nad yw'r etholwr neu'r dirprwy yn gallu neu eisiau gwneud trefniadau i ddarparu pleidlais bost arall, dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y weithdrefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn lle hynny (gweler Atodiad 5b).

Ar ôl 5pm, ni ellir rhoi pecyn pleidleisio drwy'r post arall i'r etholwr na'r dirprwy, felly dim ond papurau pleidleisio a gyflwynwyd y gall y Swyddog Llywyddu eu rhoi.

Cyn rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig priodol (gweler Atodiad 5a).

Os yw'r etholwr neu'r dirprwy yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi papurau pleidleisio a gyflwynwyd - ni ddylid rhoi papurau pleidleisio cyffredin i'r etholwr neu'r dirprwy.

Ym mhob achos, dylai'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod o fanylion yr etholwr yn unol â chyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau. Dylent hefyd gynghori'r etholwr i gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn enwedig os ydynt yn dymuno canslo eu trefniadau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau a refferenda yn y dyfodol.

### Beth sy'n digwydd os nad yw etholwr (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) wedi derbyn, wedi colli neu wedi difetha ei bapur pleidleisio drwy'r post?

Does dim modd newid papurau pleidleisio drwy'r post yn yr orsaf bleidleisio. Os bydd etholwr (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) yn datgan ei fod wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ond nad yw wedi derbyn neu wedi colli neu ddifetha ei bapur pleidleisio drwy'r post, dylid ei gynghori i wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau am un arall, cyn belled â bod y cais hwn yn cael ei wneud cyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Gellir rhoi un arall hyd at yr amser hwnnw a dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr neu'r dirprwy at y swyddfa etholiadau i gael cyngor ar y weithdrefn hon.

Os bydd etholwr (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) yn cyrraedd ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn datgan ei fod wedi colli, wedi difetha neu heb dderbyn ei bapur pleidleisio drwy'r post, gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddo os yw'n ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 5a).

Ni ellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd i etholwr o'r fath (neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post) cyn 5pm.

## Pleidleiswyr drwy ddirprwy

Bydd rhai etholwyr wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Er hynny, gall etholwyr bleidleisio'n bersonol ar yr amod eu bod yn gwneud hynny gerbron y dirprwy ac nad yw'r dirprwy wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post. Edrychwch ar y gofrestr etholwyr i weld a yw'r etholwr eisoes wedi pleidleisio cyn dechrau ar y drefn ganlynol. Gall etholwyr sydd wedi gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy fod â'r llythyren '**P**' gyferbyn â'u henw ar y gofrestr etholwyr.

Os yw'r dirprwy hefyd yn pleidleisio drosto'i hun, dylai wneud hynny cyn pleidleisio fel dirprwy.

Yn gyntaf, gofynnwch am enw a chyfeiriad yr etholwr a gweld a yw wedi'i gynnwys ar y rhestr dirprwyon. Gofynnwch am enw a chyfeiriad y dirprwy a thynnu llinell ar y rhestr dirprwyon i ddangos bod y dirprwy wedi pleidleisio.

Rhaid i gofnod yr etholwr ar y gofrestr gael ei farcio yn y modd arferol a rhaid darllen enw a rhif yr etholwr yn uchel.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu neu'r Clerc Pleidleisio sy'n gyfrifol am roi papurau pleidleisio ysgrifennu rhif etholwr yr etholwr (nid y dirprwy) ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ymyl rhif y papur pleidleisio priodol i gofnodi bod y papur pleidleisio wedi cael ei roi.

Cofiwch mai dim ond i etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau y gellir rhoi papurau pleidleisio. Os yw cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr yn cael ei ragflaenu gan lythyren nad yw'n rhoi hawl iddo bleidleisio yn

yr etholiadau, ni all y dirprwy fwrw pleidlais ar ei ran.

## Gweithdrefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i ddirprwyon sy'n pleidleisio ar ran etholwyr gyda chofrestriadau dienw ar y gofrestr

Er mwyn eu diogelu rhag niwed, bydd rhai etholwyr yn cael eu cofrestru heb gyfeiriad at eu henw na'u cyfeiriad - bydd ganddynt gofnod dienw ar y gofrestr (gweler Atodiad 4). Efallai y bydd etholwyr sydd â chofrestriad dienw wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Os felly, gofynnwch am eu cerdyn pleidleisio: rhaid i ddirprwyon sy'n dymuno pleidleisio ar ran etholwr dienw ddangos eu cerdyn pleidleisio drwy ddirprwy swyddogol ac ni fyddant yn gallu pleidleisio fel dirprwy heb un. Yn hytrach na gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr a llefaru enw'r etholwr, dim ond ei rif etholwr y dylid gofyn amdano a'i lefaru.

Cofiwch mai dim ond i etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau y gellir rhoi papurau pleidleisio. Os yw cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr yn cael ei ragflaenu gan lythyren nad yw'n rhoi hawl iddo bleidleisio yn yr etholiadau, ni all y dirprwy fwrw pleidlais ar ei ran.

## Pwy sy'n gymwys i bleidleisio fel dirprwy

Nid oes gan berson hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran mwy na dau etholwr mewn unrhyw etholaeth yn yr un etholiad i'r Senedd.

Yr unig amgylchiadau lle gall person weithredu fel dirprwy i fwy na dau etholwr yw os ydynt yn aelodau agos o'u teulu (h.y. tad, mam, brawd, chwaer, priod, partner sifil, mab, merch, nain neu daid neu ŵyr/wyres).

Os bydd person sydd wedi'i benodi'n ddirprwy i fwy nag un etholwr yn gwneud cais i fwrw pleidleisiau'r etholwyr, dim ond y papurau pleidleisio ar gyfer un etholwr ar y tro y dylid eu rhoi i'r dirprwy.

Gellir herio dirprwyon hefyd yn yr un modd ag y gellir herio pleidleisiwr cyffredin os amheuir ei fod yn cambersonadu. Os bydd hyn yn digwydd, gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig perthnasol (gweler Atodiad 5a).

## Beth os bydd yr etholwr yn dod i bleidleisio yn hytrach na'i ddirprwy?

Mae gan etholwr sydd wedi penodi dirprwy hawl i dderbyn ei bapurau pleidleisio os yw'n gwneud cais amdano'n bersonol, ond dim ond os gwneir y cais cyn i bapurau pleidleisio gael eu rhoi ar ei ran i'r dirprwy. Ni ddylid marcio'r rhestr dirprwyon os bydd hyn yn digwydd, ond rhaid marcio cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr. Os bydd y dirprwy wedyn yn ymddangos yn ddiweddarach, ni ddylid caniatáu iddo bleidleisio fel dirprwy ar ran y pleidleisiwr, ond, os bydd yn mynnu nad yw'r etholwr wedi pleidleisio eto, a bod y cwestiynau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol (gweler Atodiad 5a), gellir rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

Os yw'r dirprwy wedi gofyn am gael pleidleisio drwy'r post, ni ellir rhoi papur pleidleisio i'r etholwr. Bydd marc '**A**' yn ymddangos yn erbyn enw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr ac enw'r dirprwy, a bydd y cyfeiriad yr anfonwyd y bleidlais bost iddo yn ymddangos ar y rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post.

## Beth sy'n digwydd os yw'n ymddangos bod rhywun arall wedi pleidleisio fel dirprwy?

Dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y weithdrefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd i ddirprwyon os yw cofnod dirprwy ar y rhestr dirprwyon a chofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr eisoes wedi'u marcio (gweler Atodiad 5b).

Dim ond ar ôl gofyn y cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon (gweler Atodiad 5b) y dylai'r Swyddog Llywyddu roi papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

## Dirprwyon brys

Gall etholwyr benodi dirprwy hyd at 5pm ar ddiwrnod yr etholiad mewn achosion o:

- argyfwng meddygol neu

- lle maen nhw wedi cael eu galw i ffwrdd yn annisgwyl oherwydd eu cyflogaeth neu wasanaeth

Os bydd unrhyw un yn gwneud cais ar ddiwrnod yr etholiad, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau yn sicrhau bod holl staff yr orsaf bleidleisio yn cael gwybod am y drefn briodol i'w dilyn.

Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn caniatáu cais brys am bleidlais drwy ddirprwy ar y diwrnod pleidleisio, bydd y Swyddog Llywyddu perthnasol yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybod i staff sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wedyn wneud nodyn o enw, cyfeiriad a rhif etholiadol yr etholwr a rhoi'r wybodaeth hon ynghlwm wrth y rhestr dirprwyon. Efallai fod ffurflen wag wedi'i chynnwys ar ddiwedd y rhestr dirprwyon at y diben hwnnw.

Ar ôl i benderfyniad y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ganiatáu cais brys am bleidlais drwy ddirprwy gael ei hysbysu, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi papurau pleidleisio yn y modd arferol. Dylid marcio cofnod ysgrifenedig y Swyddog Cofrestru Etholiadol (os yw ar gael) neu nodyn y Swyddog Llywyddu i ddangos bod y dirprwy wedi pleidleisio ar ran yr etholwr.

# Atodiad 4 – Etholwyr gyda chofnod dienw ar y gofrestr

Er mwyn eu diogelu rhag niwed, bydd rhai etholwyr yn cael eu cofrestru heb gyfeiriad at eu henw na'u cyfeiriad. Bydd ganddynt yr hyn a elwir yn gofnod dienw yn y gofrestr, a fydd yn cynnwys eu rhif etholwr a'r llythyren '**N**'. Efallai y bydd gan rai o'r etholwyr hyn llythrennau eraill hefyd sy'n nodi eu bod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau penodol (gweler Pennod 5 am fanylion).

Os yw cofrestr yn cynnwys cofnodion dienw, bydd y rhain i'w gweld ar ddiwedd y gofrestr o dan yr adran 'etholwyr eraill'. Mae'n bwysig cofio, mewn gorsaf bleidleisio a rennir, y gallai eu cofnod ymddangos ar y gofrestr ar gyfer yr orsaf bleidleisio arall.

Mae'r drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i etholwr dienw yn wahanol i'r drefn ar gyfer etholwyr cyffredin.

## Y drefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i etholwyr gyda chofnod dienw

Yn wahanol i etholwyr cyffredin, rhaid i etholwyr dienw gael cerdyn pleidleisio ac ni fyddant yn gallu pleidleisio heb un:

- gofynnwch am eu cerdyn pleidleisio - ni fydd yn cynnwys eu henw na'u cyfeiriad ond bydd yn cynnwys eu rhif etholwr
- gwiriwch y gofrestr - dylai'r cofnod ar gyfer y rhif etholwr hwnnw fod yn '**N**', yn hytrach nag yn enw a chyfeiriad
- rhowch linell syth yn erbyn cofnod yr etholwr ar y gofrestr
- peidiwch â gofyn am enw na chyfeiriad yr etholwr - llefarwch ei rif etholwr yn unig
- rhowch rif yr etholwr yn y rhestr rhifau cyfatebol
- rhowch y papur pleidleisio iddynt a dychwelwch eu cerdyn pleidleisio iddynt

Gellir gofyn y cwestiynau rhagnodedig hefyd i bleidleisiwr sydd â chofnod dienw ar y gofrestr, ond bydd ei enw a'i gyfeiriad wedi eu hepgor (gweler Atodiad 5a).

## Beth os bydd etholwr sydd â chofnod dienw yn ymddangos yn yr orsaf bleidleisio heb gerdyn pleidleisio?

Os ydyw wedi anghofio dod â'i gerdyn pleidleisio gydag ef, gofynnwch iddo ddod yn ôl i'r orsaf bleidleisio rywbryd eto gyda'i gerdyn pleidleisio. Os ydyw'n honni na chafodd un erioed neu ei fod wedi'i golli, gofynnwch iddo gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith. Os rhoddir cerdyn pleidleisio newydd a bod yr etholwr wedyn yn dychwelyd i'r orsaf bleidleisio gydag ef, rhaid rhoi papurau pleidleisio yn y modd a ddisgrifir uchod.

# Atodiad 5a – Y cwestiynau rhagnodedig

Gellir gofyn y cwestiynau rhagnodedig i unrhyw etholwr neu ddirprwy.

Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig yn gywir ac yn bwyllog o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae etholwr (sydd heb benodi dirprwy) yn gwneud cais am bapur pleidleisio ond mae'r gofrestr etholwyr yn dangos ei fod eisoes wedi pleidleisio. Yn yr amgylchiadau hyn, hyd yn oed os yw'r cwestiynau'n cael eu hateb yn foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y mae gan yr etholwr hawl iddo.
- Mae cofnod pleidleisiwr sy'n ddirprwy ar y rhestr dirprwyon eisoes wedi'i farcio ac mae cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr hefyd wedi'i farcio. Ar ôl ateb y cwestiynau'n foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y mae gan yr etholwr neu'r dirprwy hawl iddo.
- Mae pleidleisiwr sy'n ddirprwy yn dychwelyd i'r orsaf bleidleisio ar ôl i'w gais i fwrw pleidlais fel dirprwy gael ei wrthod oherwydd bod y gofrestr etholwyr yn nodi bod y pleidleisiwr wedi pleidleisio'n bersonol (ni fyddai'r rhestr dirprwyon yn yr achos hwn wedi cael ei marcio), ac yn mynnu nad yw'r etholwr wedi pleidleisio. Os bydd yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, bydd ganddo'r hawl i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd.
- Mae enw etholwr (neu ddirprwy) yn ymddangos ar y rhestr o bleidleiswyr post (neu ar y rhestr o bleidleiswyr post drwy ddirprwy) ond mae'n datgan na wnaeth gais i bleidleisio drwy'r post. Os yw'r etholwr (neu'r dirprwy) yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, rhaid rhoi iddo bapur pleidleisio a gyflwynwyd.
- Mae etholwr (neu ddirprwy) y mae ei enw'n ymddangos ar y rhestr o bleidleiswyr post (neu ar y rhestr o bleidleiswyr post drwy ddirprwy) yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni ei fod wedi colli, wedi difetha neu heb dderbyn ei bapur pleidleisio drwy'r post. Os caiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol, bydd gan yr etholwr (neu ddirprwy) hawl i bapur pleidleisio a gyflwynwyd yn unig.
- Mae ymgeisydd, asiant etholiadol neu asiant pleidleisio yn gwneud cais i'r cwestiynau gael eu gofyn. Os caiff y cwestiynau rhagnodedig eu hateb yn foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin.

Dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd ofyn y cwestiynau rhagnodedig perthnasol:

- Mae etholwr yn datgan nad yw ei enw yr un fath â'i enw ar y gofrestr etholwyr. Os gall yr etholwr, mewn ymateb i'r cwestiynau rhagnodedig, gadarnhau bod y cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio ato, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin.
- Mae staff yr orsaf bleidleisio yn amau bod etholwr neu ddirprwy'n cambersonadu. Os gall yr etholwr, mewn ymateb i'r cwestiynau rhagnodedig, gadarnhau bod y cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio ato, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin.
- Mae'r etholwr wedi'i gofrestru fel rhywun sy'n gymwys i bleidleisio ond mae'n amlwg ei fod o dan oed. Os caiff y cwestiynau rhagnodedig eu hateb yn foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin.

Ni chaniateir gwneud unrhyw ymholiad ynghylch hawl unrhyw berson i bleidleisio, ac eithrio'r cwestiynau rhagnodedig a ddangosir isod.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu, beth bynnag fo unrhyw amheuaeth a fo ganddynt, roi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol, i unrhyw un sydd wedi ateb y cwestiynau'n gywir. Os bydd person yn gwrthod ateb y cwestiynau, yna ni ellir rhoi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol. Os bydd y person hwnnw'n dychwelyd yn ddiweddarach, yna rhaid i'r Swyddog

Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig iddo eto.

Caiff etholwyr ofyn i'r cwestiynau rhagnodedig gael eu gofyn iddynt naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel etholwr

**'Ai chi yw'r person sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol fel a ganlyn (rhaid i chi wedyn ddarllen y cofnod cyfan o'r gofrestr yn uchel)'?**

Os mai 'na' yw'r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Os mai 'ie' yw'r ateb, yna gofynnwch:

**'Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yma neu yn rhywle arall, yn yr etholiad hwn, ac eithrio fel dirprwy ar ran rhywun?'**

Os mai 'do' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os yw'r person wedi ateb 'ie' i'r cwestiwn cyntaf a 'naddo' i'r ail gwestiwn, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy (ond nid ar ran etholwr sydd â chofrestriad dienw)

Mae gan y cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon eiriad gwahanol:

**'Ai chi yw'r person y mae ei enw'n ymddangos fel (darllenwch yr enw sy'n ymddangos yn y rhestr dirprwyon) yn y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel rhywun sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran (darllenwch enw'r etholwr ar y gofrestr)?'**

Os mai 'na' yw'r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Os mai 'ie' yw'r ateb, yna gofynnwch:

**'Ydych chi eisoes wedi pleidleisio yma neu yn rhywle arall, yn yr etholiad hwn, fel dirprwy ar ran (darllen enw'r etholwr ar y gofrestr)?'**

Os mai 'do' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio. Os mai 'naddo' yw'r ateb, yna gofynnwch:

**'Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, nain/mam-gu neu daid/tad-cu, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr neu wyres (darllenwch enw'r etholwr ar y gofrestr)?'**

Os mai'r ateb i'r cwestiwn hwn yw 'ie' (ac mae'r cwestiynau uchod wedi cael eu hateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Ond, os mai 'na' yw'r ateb, yna gofynnwch:

**'Yn yr etholiad hwn, ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn yr etholaeth hon ar ran dau berson nad ydych chi'n briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn nain neu'n daid, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn neu'n ŵyr neu'n wyres iddynt?'**

Os mai'r ateb i'r cwestiwn hwn yw 'do', peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Os mai 'naddo' yw'r ateb (ac mae'r cwestiwn uchod wedi cael ei ateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

## Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr gyda chofrestriad dienw

**'Ai chi yw'r person sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr y mae ei rif ar y gofrestr etholwyr fel a ganlyn (darllenwch y rhif oddi ar y gofrestr)?'**

Os mai ‘na’ yw’r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Os mai ‘ie’ yw’r ateb, yna gofynnwch:

**‘Ydych chi eisoes wedi pleidleisio, yma neu yn rhywle arall yn yr etholiad hwn, ar ran yr etholwr y mae ei rif ar y gofrestr etholwyr fel a ganlyn (darllenwch rif yr etholwr ar y gofrestr)?’**

Os mai ‘do’ yw’r ateb i’r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio. Os mai ‘naddo’ yw’r ateb, rhaid i chi hefyd ofyn:

**‘Ai chi yw priod, partner sifil, rhiant, nain neu daid, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr neu wyres yr etholwr y mae ei rif ar y gofrestr etholwyr fel a ganlyn (darllenwch rif yr etholwr ar y gofrestr)?’**

Os mai’r ateb i’r cwestiwn hwn yw ‘ie’ (ac mae’r cwestiwn uchod wedi cael ei ateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo’n briodol.

Ond, os mai ‘na’ yw’r ateb, yna gofynnwch:

**‘Yn yr etholiad hwn, ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn yr etholaeth hon ar ran dau berson nad ydych chi’n briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn nain neu’n daid, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn neu’n ŵyr neu’n wyres iddynt?’**

Os mai’r ateb i’r cwestiwn hwn yw ‘do’, peidiwch â rhoi papur pleidleisio. Os mai ‘naddo’ yw’r ateb i’r cwestiwn hwn (ac mae pob un o’r cwestiynau uchod wedi cael eu hateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu a gyflwynwyd, fel y bo’n briodol.

## Y cwestiynau rhagnodedig i’w gofyn i berson sy’n gwneud cais i bleidleisio’n bersonol pan ddangosir ei fod ar y gofrestr fel pleidleisiwr post

Mae’r cwestiynau rhagnodedig canlynol ar gyfer etholwyr a ddangosir ar y gofrestr fel pleidleiswyr post, ond sydd yn:

- honni naill ai nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy’r post neu
- yn dod i’r orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni eu bod wedi colli neu heb dderbyn eu papurau pleidleisio drwy’r post

**‘A wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy’r post?’**

Os mai ‘naddo’ yw’r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Os mai ‘do’ yw’r ateb i’r cwestiynau hyn, yna gofynnwch:

**‘Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post?’**

Os caiff y cwestiwn ei ateb yn foddhaol, dylai’r Swyddog Llywyddu gofnodi’r rheswm a rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Fodd bynnag, os yw’r etholwr yn dweud nad yw wedi pleidleisio drwy’r post oherwydd ei fod wedi colli neu heb dderbyn (y cyfan neu unrhyw ran o’i becyn pleidleisio drwy’r post), dim ond ar ôl 5pm y gellir rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

## Y cwestiynau rhagnodedig i’w gofyn i berson sy’n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy pan ddangosir ei fod wedi cael papurau pleidlais bost drwy ddirprwy

Dyma’r cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon a enwir ar y rhestr pleidleiswyr post drwy ddirprwy ond sy’n honni naill ai nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy’r post neu sy’n dod i’r orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac sy’n honni eu bod wedi colli neu heb dderbyn eu papurau pleidleisio drwy’r post:

**‘A wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy’r post fel dirprwy?’**

Os mai ‘naddo’ yw’r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Os mai ‘do’ yw’r ateb, yna gofynnwch:

**‘Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post fel dirprwy?’**

Os caiff y cwestiwn ei ateb yn foddhaol, dylai’r Swyddog Llywyddu gofnodi’r rheswm a rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Fodd bynnag, os yw’r dirprwy yn dweud nad yw wedi pleidleisio drwy’r post oherwydd ei fod wedi colli neu heb dderbyn (y cyfan neu unrhyw ran o’i becyn pleidleisio drwy’r post), dim ond ar ôl 5pm y gellir rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

# Atodiad 5b – Papurau pleidleisio a gyflwynwyd

## Amgylchiadau ar gyfer rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd

**Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn rhoi unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd.**

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu sicrhau mai dim ond o dan yr amgylchiadau rhagnodedig y rhoddir papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

Dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y dylid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd:

- os yw etholwr yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr (neu'r hysbysiad) fel rhywun sydd eisoes wedi pleidleisio
- mae cofnod dirprwy ar y rhestr dirprwyon eisoes wedi'i farcio a/neu mae cofnod yr etholwr a'i penododd yn ddirprwy wedi'i farcio
- mae etholwr (neu ddirprwy) sy'n ymddangos ar y rhestr o bleidleiswyr post yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais bost. Mae ganddo hawl i ofyn am becyn pleidleisio drwy'r post newydd gan y Swyddog Canlyniadau hyd at 5pm, ond gellir rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd iddo ar unrhyw adeg os yw'ndymuno hynny
- mae hi ar ôl 5pm ac mae etholwr (neu ddirprwy) sy'n ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post yn honni ei fod wedi colli, wedi difetha neu heb gael ei bleidlais drwy'r post

Os rhoddir papurau pleidleisio a gyflwynwyd drwy gamgymeriad, rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud nodyn o rifau cyfresol y pleidleisiau a gyflwynwyd sydd wedi'u rhoi drwy gamgymeriad a hysbysu'r Swyddog Canlyniadau cyn gynted â phosibl.

Cyn rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd, dylai'r Swyddog Llywyddu egluro'r amgylchiadau i'r etholwr (neu ddirprwy) ac yna rhaid iddo ofyn y cwestiynau rhagnodedig sy'n berthnasol i'w sefyllfa (gweler Atodiad 5a).

Os caiff y cwestiynau rhagnodedig eu hateb yn foddhaol, yna rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Dylai'r Swyddog Llywyddu wedyn egluro'r drefn pleidleisiau a gyflwynwyd i'r etholwr (neu ddirprwy).

## Y drefn ar gyfer rhoi papurau

Ar ôl derbyn atebion boddhaol i'r cwestiynau rhagnodedig, rhaid ysgrifennu rhif etholwr yr etholwr (gan gynnwys cyfeirnod y dosbarth etholiadol) yn erbyn rhif y papur pleidleisio a gyflwynwyd sy'n cael ei roi ar y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd.

Gwnewch yn siŵr bod y papur pleidleisio a gyflwynwyd yn cynnwys y marc swyddogol. Plygwch ef ac yna ei roi i'r pleidleisiwr **heb ei blygu** fel y gall weld yr holl ymgeiswyr a phleidiau ar y papur pleidleisio. Rhaid iddo wedyn bleidleisio'n gyfrinachol, plygu'r papur pleidleisio a gyflwynwyd a'i ddychwelyd i'r Swyddog Llywyddu.

Ni cheir rhoi'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn y blwch pleidleisio. I wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd, dylai'r Swyddog Llywyddu sefyll wrth y blwch pleidleisio a gorchuddio'r slot.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu fynd â'r papur pleidleisio a gyflwynwyd sydd wedi'i blygu a'i arnodi ag enw'r pleidleisiwr ynghyd â'i rif pleidleisio (gan gynnwys cyfeirnod y dosbarth etholiadol) a'i roi yn yr amlen swyddogol a ddarperir. Rhaid iddynt wedyn nodi rhif ac enw etholwr y pleidleisiwr ar y 'Rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd'.

Os bydd dirprwy'n pleidleisio ar ran etholwr, nodwch y papur pleidleisio a gyflwynwyd gydag

enw’r dirprwy, ond gyda rhif etholwr yr etholwr. Rhowch rif yr etholwr, ynghyd ag enw’r dirprwy, ar y ‘Rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd’.

## Rhesymau dros gwblhau papurau pleidleisio a gyflwynwyd

Weithiau, efallai y bydd pleidleiswyr yn gofyn pam eu bod yn cael cynnig papur pleidleisio a gyflwynwyd. Er nad yw papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu cynnwys yn y cyfrif, mae papur pleidleisio a gyflwynwyd yn darparu tystiolaeth bod pleidleisiwr yn poeni am y ffordd roedd yr etholiad yn cael ei gynnal adeg pleidleisio, yn hytrach nag ar ôl datgan y canlyniad. O’r herwydd, papurau pleidleisio a gyflwynwyd yw’r cam cyntaf wrth fynd ar drywydd cwyn am y broses etholiadol. Os na fydd pleidleisiwr yn cymryd y cam hwn, gallai olygu nad oes cofnod ffurfiol ei fod wedi ceisio bwrw ei bleidlais, ond nad oedd yn gallu bwrw ei bleidlais.

Yn ogystal, pryd bynnag y rhoddir papurau pleidleisio a gyflwynwyd, cofnodir enw’r pleidleisiwr a’i rif etholwr ar y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd. Mae’r rhestr hon wedyn yn galluogi swyddogion etholiadol i ganfod a oes unrhyw batrymau cambersonadu posibl ar draws eu hardal.

# Atodiad 6 – Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio

Y Swyddog Llywyddu sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr orsaf bleidleisio. Mae pleidleiswyr yn disgwyl i orsafoedd pleidleisio gael eu rhedeg mewn ffordd dawel a threfnus.

## Cadw trefn

Rhaid i Swyddogion Llywyddu gadw trefn yn yr orsaf bleidleisio. Mae ganddynt y pŵer i orchymyn bod person yn cael ei symud o'r orsaf bleidleisio. Serch hynny, rhaid caniatáu i bleidleiswyr cymwys bleidleisio cyn iddynt gael eu symud. Dylai Swyddog Llywyddu sy'n gorchymyn bod person yn cael ei symud gofnodi manylion y digwyddiad a'u trosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau.

Dim ond ar awdurdod y Swyddog Llywyddu y caniateir i berson sydd wedi'i symud o'r orsaf bleidleisio, ac nad yw wedi pleidleisio, gael ei aildderbyn. Os yw'r person yn dychwelyd ac yn ymddwyn yn briodol, rhaid rhoi cyfle iddo bleidleisio.

Nid oes diffiniad cyfreithiol o faint yr orsaf bleidleisio ond, o leiaf, dyma'r ystafell lle mae'r pleidleisio'n digwydd.

Bydd y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi gwybod i chi a yw'n ymwybodol o unrhyw risgiau penodol ar gyfer y diwrnod pleidleisio neu a oes hanes o broblemau yn ymwneud â'r drefn gyhoeddus sy'n effeithio ar eich gorsaf bleidleisio benodol chi a'r ardal gyfagos. Yn yr amgylchiadau hyn yn benodol, dylech gynnal archwiliadau rheolaidd o amgylch eich gorsaf bleidleisio yn ogystal ag unrhyw wiriadau eraill y mae'r Swyddog Canlyniadau wedi gofyn i chi eu gwneud. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan bleidleiswyr fynediad heb rwystr i'w gorsaf bleidleisio. Er ei bod yn bwysig cynnal yr archwiliadau hyn, os yw'r orsaf bleidleisio'n brysur, arhoswch tan gyfnod tawelach cyn cynnal eich archwiliad nesaf.

## Achosion neu aflonyddwch difrifol a gohirio'r bleidlais

Bydd yr heddlu wedi cael gwybod ble mae'r gorsafoedd pleidleisio. Efallai y bydd swyddogion heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cael dyletswyddau gorsaf bleidleisio ac efallai y byddant yn ymweld â nhw yn ystod y dydd. Os bydd anhrefn yn yr orsaf bleidleisio yn ystod y dydd, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau a rhoi gwybod iddynt am y sefyllfa. Os oes angen, galwch yr heddlu i ddelio â'r broblem.

Os ceir aflonyddwch neu ddigwyddiad difrifol e.e. bygythiad bom, tân, llifogydd ac ati, efallai y gofynnir i'r Swyddog Llywyddu adael yr eiddo neu efallai y bydd yn penderfynu gwneud hynny. Os bydd y gwasanaethau brys yn gofyn am wacau'r adeilad, rhaid gwneud hynny. Rhowch wybod i'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith a gofyn am arweiniad ar y camau pellach y dylid eu cymryd.

Peidiwch byth â pheryglu diogelwch personol pleidleiswyr na gweddill tîm yr orsaf bleidleisio, nac achosi risg o unrhyw anaf i unrhyw un. Os yw'n bosibl gwneud hynny heb beryglu diogelwch personol, yna gellir tynnu'r holl ddeunyddiau etholiadol sensitif (y blwch pleidleisio, papurau pleidleisio, cofrestr etholwyr, ac ati) o'r adeilad a'u cadw dan ofal staff yr orsaf bleidleisio. Dylech roi gwybod i unrhyw asiantiaid neu arsylwyr sy'n bresennol am eich gweithredoedd.

Os cewch eich gorfodi i adael yr eiddo, dylech sefydlu gorsaf bleidleisio dros dro ddiogel oddi wrth yr aflonyddwch neu'r digwyddiad difrifol. Efallai y bydd digon o le wrth fynedfa'r adeilad, neu hyd yn oed y tu allan iddo. Mewn rhai achosion, mae Swyddogion Llywyddu wedi defnyddio cefn car. Beth bynnag fo'r sefyllfa, rhaid i bleidleiswyr allu pleidleisio'n ddiogel ac yn gyfrinachol o 7am ymlaen.

P'un a oes toriad wedi bod yn y pleidleisio ai peidio, rhaid i'r orsaf bleidleisio gau am 10pm o hyd. Fodd bynnag, dylid gwneud nodyn o'r

amser pan nad oedd yr orsaf bleidleisio yn gallu gweithredu.

Yn yr achos mwyaf eithafol, bydd y Swyddog Canlyniadau yn caniatáu i’r Swyddog Llywyddu ohirio’r pleidleisio tan y diwrnod canlynol. Os caiff y bleidlais ei gohirio, bydd y Swyddog Canlyniadau yn trefnu i ddeunyddiau’r etholiad gael eu casglu.

**Ni chaiff Swyddogion Llywyddu ohirio’r bleidlais heb gydsyniad y Swyddog Canlyniadau.**

## Delio â sefyllfaoedd anodd

Mae’n bosibl y bydd staff yr orsaf bleidleisio yn dod ar draws sefyllfaoedd anodd neu’n wynebu ymddygiad ymosodol yn ystod y diwrnod pleidleisio.

Gall y camau canlynol helpu staff gorsafoedd pleidleisio mewn sefyllfaoedd a allai fod yn anodd neu’n heriol:

- **Gwrando ar y pleidleisiwr** - mae’n arfer da edrych ar y person wrth iddo siarad, gan ddangos diddordeb.
- **Deall** - rhowch wybod i’r person bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ddeall y broblem o’i safbwynt. Mae hyn yn pwysleisio bod penderfyniad ar sail gwybodaeth yn cael ei ystyried.
- **Archwilio** - gofynnwch i’r unigolyn a oes unrhyw wybodaeth berthnasol arall y gall ei rhoi a allai helpu’r broses.
- **Crynhoi** - rhowch yr ymateb a’r rheswm drosto. Peidiwch â bod yn rhan o ffrae.

# Atodiad 7 – Y weithdrefn ar gyfer delio â chambersonadu

## Beth sy’n digwydd os bydd staff gorsaf bleidleisio yn amau bod person yn cambersonadu etholwr neu ddirprwy?

Efallai y bydd achlysuron prin pan fydd aelod o dîm yr orsaf bleidleisio, etholwr arall, asiant etholiadol, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn amau nad yw’r sawl sy’n gofyn am bapurau pleidleisio yn dweud y gwir am bwy ydyw. Gelwir hyn yn ‘gambersonadu’, ac mae’n drosedd difrifol.

Cofiwch nad yw person, ac eithrio dirprwy, yn euog o gambersonadu os yw’n gwneud cais am bapur pleidleisio dan enw nad yw’n enw ei hun, ar yr amod mai dyna’r enw y mae wedi’i gofrestru oddi tano.

Rhaid i Swyddogion Llywyddu beidio â holi person os ydynt yn amau bod person yn cambersonadu. Dim ond y cwestiynau rhagnodedig y gellir eu gofyn. Rhaid gofyn y cwestiynau i’r person cyn rhoi papur pleidleisio iddo, ac nid ar ôl hynny (gweler Atodiad 5a).

Mae’r cwestiynau rhagnodedig yn pennu ai’r pleidleisiwr yw’r person sy’n ymddangos ar y gofrestr etholwyr (neu’r rhestr dirprwyon os yw’n pleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall), ac a yw wedi pleidleisio o’r blaen yn yr etholiadau (neu ar ran yr etholwr hwnnw os yw’n ddirprwy).

Os yw’r person yn ateb y cwestiynau’n foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin. Fodd bynnag, dylai’r Swyddog Llywyddu roi gwybod i’r Swyddog Canlyniadau am ei amheuon cyn gynted â phosibl.

Os oes gwrthdaro, neu ddisgwyliad rhesymol o wrthdaro, dylai’r Swyddog Llywyddu ystyried ei ddiogelwch ei hun, a diogelwch yr holl bobl eraill sy’n bresennol, fel blaenoriaeth. Gellir ystyried ffyrdd eraill o gefnogi ymchwiliad yn y dyfodol, fel cofnodi rhifau cofrestru cerbydau a chadw eitemau sy’n cael eu cyffwrdd gan unigolyn sy’n gysylltiedig â digwyddiad, os yw’n ddiogel gwneud hynny, nes bydd swyddog heddlu wedi cyrraedd.

Os yw person wedi cael ei arestio ar y sail yr amheuir ei fod yn cyflawni neu ar fin cyflawni cambersonadu, rhaid peidio ag atal y person hwnnw rhag pleidleisio cyn belled ei fod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol.

## Beth sy’n digwydd os bydd asiant etholiadol, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn herio pleidleisiwr?

Os bydd asiant etholiadol, asiant pleidleisio neu ymgeisydd yn herio pleidleisiwr, (drwy’r Swyddog Llywyddu), ni ddylid atal y pleidleisiwr rhag pleidleisio cyn belled ei fod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn gywir.

## Beth sy’n digwydd os yw’n ymddangos bod rhywun arall (ar wahân i ddirprwy) wedi pleidleisio ar ran y pleidleisiwr?

Mae adegau prin pan fydd person yn gofyn am bapurau pleidleisio ac yn canfod bod ei enw ar y gofrestr etholwyr wedi’i farcio fel rhywun sydd eisoes wedi pleidleisio. Os yw’n ymddangos bod rhywun ar wahân i’w ddirprwy penodedig wedi pleidleisio ar ran etholwr, dylid dilyn y broses pleidleisiau a gyflwynwyd a amlinellir yn Atodiad 5b.

# Atodiad 8 – Canllawiau ynghylch rhifwyr, y cyfryngau a pholau ymadael

## Rhifwyr

Mae rhifwyr yn gwirfoddoli ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr. Maent yn sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio neu fannau pleidleisio ac yn cofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi pleidleisio. Drwy adnabod etholwyr sydd heb bleidleisio a chyfleu'r wybodaeth hon i'r blaid, i'r ymgeisydd neu i'w cefnogwyr, mae gan rifwyr rôl hollbwysig mewn etholiadau. Gall y blaid, yr ymgeisydd neu ei chefnogwyr wedyn gysylltu â'r pleidleiswyr nad ydynt eto wedi bod i bleidleisio yn ystod y diwrnod pleidleisio a'u hannog i bleidleisio.

Ni ddylid cael mwy nag un rhifwr mewn gorsaf bleidleisio ar gyfer pob plaid wleidyddol ac ymgeisydd ar unrhyw adeg. Pan fydd man pleidleisio yn cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio gyda mynedfeydd ar wahân, gall fod yn briodol cael rhifwyr ym mhob mynedfa, ond dim mwy nag un fesul plaid wleidyddol neu ymgeisydd.

Nid oes gan rifwyr unrhyw statws cyfreithiol ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi unrhyw wybodaeth iddynt.

Gall y Swyddog Canlyniadau neu ei staff roi arweiniad pellach ar weithgareddau rhifwyr.

**Rhaid i rifwyr:**

- aros y tu allan i'r orsaf bleidleisio bob amser
- dim ond mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio i fwrw eu pleidlais eu hunain, pleidleisio fel dirprwy neu fynd gyda phleidleisiwr anabl
- cydymffurfio bob amser â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Llywyddu

**Ni ddylai rhifwyr:**

- allu gweld neu glywed beth sy'n digwydd yn yr orsaf bleidleisio
- rhwystro neu ddychryn pleidleiswyr ar eu ffordd i mewn neu allan o'r orsaf bleidleisio
- mynnu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â rhif, enw neu gyfeiriad etholwr
- gofyn i bleidleiswyr fynd yn ôl i'r orsaf bleidleisio i ganfod eu rhif pleidleisio
- cynnal trafodaethau gyda phleidleiswyr a allai arwain at honiadau o ddylanwad gormodol (e.e. bwriadau pleidleisio, ymlyniadau pleidiol neu ymgyrchoedd pleidiau)
- arddangos unrhyw ddeunydd ymgyrchu o blaid neu yn erbyn unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd penodol heblaw rhosglwm neu fathodyn

**Gall rhifwyr:**

- fynd at bleidleiswyr i gael gwybodaeth wrth iddynt gyrraedd neu adael yr orsaf bleidleisio
- arddangos rhosglwm neu fathodyn lliw sy'n dangos enw'r ymgeisydd neu'r blaid wleidyddol a/neu arwyddlun neu ddisgrifiad; ni ddylai slogan fod ar y rhosglwm/bathodyn ac ni ddylent fod yn rhy fawr

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio gweithgareddau'r rhifwyr o bryd i'w gilydd a sicrhau nad ydynt yn rhwystro'r fynedfa nac yn rhwystro pleidleiswyr rhag mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio.

## Y cyfryngau

Nid oes gan gynrychiolwyr y cyfryngau hawl i fynd i mewn i orsaf bleidleisio ac eithrio fel pleidleiswyr neu arsylwyr achrededig. Ni ddylid caniatáu iddynt ffilmio na chyfweld pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os yw criw ffilmio yn ffilmio neu os oes cyfweliadau'n cael eu cynnal y tu allan i'r orsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr

nad yw pleidleiswyr yn cael eu llesteirio na'u haflonyddu ar eu ffordd i bleidleisio, nad yw'r camerâu wedi'u lleoli mewn ffordd a allai beryglu cyfrinachedd y bleidlais ac nad yw mynediad i'r orsaf bleidleisio yn cael ei rwystro.

## Polau ymadael

Gellir comisiynu cwmnïau polau piniwn cyhoeddus i drefnu pôl ymadael ar gyfer yr etholiadau. Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Llywyddu os yw cwmni polau yn bwriadu cynnal pôl ymadael y tu allan i'r orsaf bleidleisio. Os felly, gwnewch yn siŵr nad yw'r cyfwelwyr yn mynd i mewn nac yn rhwystro mynediad i'r orsaf bleidleisio.

# Atodiad 9 – Iechyd a diogelwch

## Iechyd a diogelwch staff gorsafoedd pleidleisio ac etholwyr

Rhaid i Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio fod yn ymwybodol o unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Mae hyn yn gofyn am archwiliad o'r safle cyfan a'r ardal gyfagos y tu allan. Os deuir ar draws peryglon, mae angen ystyried sut i'w datrys. Cysylltwch â deiliad yr allwedd yn gyntaf, os yw'n briodol a lle bo'n bosibl.

Os bydd damwain yn digwydd i unrhyw berson yn yr orsaf bleidleisio, rhaid gwneud cofnod o'r digwyddiad a chofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- enw llawn a chyfeiriad y person dan sylw
- amser y ddamwain
- lleoliad y ddamwain
- manylion cryno am y ddamwain
- tystiolaeth o anaf neu ddifrod
- enw a chyfeiriad unrhyw dystion
- amodau oedd yn bodoli ar y pryd
- camau a gymerwyd gan staff yr orsaf bleidleisio
- enw'r meddyg neu'r parafeddyg a alwyd
- manylion unrhyw dderbyniadau i'r ysbyty

Dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith.

## Codi pethau trwm

Rhestrir isod rai pwyntiau a allai, o'u harsylwi, helpu i leihau'r risg o anaf i'r rhai sy'n ymwneud â gweithrediadau codi a chario:

- Cyn ceisio codi neu symud unrhyw beth, profwch y pwysau drwy ogwyddo i bennu pa mor drwm yw'r llwyth a chanolbwynt ei ddisgyrchiant.
- Cyn dechrau codi neu symud gwrthrychau, gwnewch yn siŵr bod yr ardal rydych chi'n gweithio ynddi yn glir a heb rwystrau.
- Gwnewch yn siŵr bod eitemau'n cael eu danfon mor agos â phosibl at ble byddant yn cael eu defnyddio a rhannu'r llwyth yn unedau llai, haws eu rheoli.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych afael cadarn a chyfforddus cyn codi.
- Gwnewch yn siŵr bod eich traed ar sylfaen gadarn cyn codi.
- Wrth godi, cadwch eich pen i fyny, eich cefn yn syth, eich traed ychydig ar wahân a, lle bynnag y bo modd, codwch o'ch pengliniau gan ddefnyddio cyhyrau eich coesau.
- Cadwch y gwrthrych rydych chi'n ei godi mor agos â phosibl at eich corff.
- Peidiwch â phentyrru gwrthrychau mor uchel fel y gallech chi neu eich llwyth orbwyso.
- Peidiwch â phentyrru gwrthrychau mor uchel fel na allwch weld i ble rydych chi'n mynd.
- Os na allwch godi na symud y llwyth ar eich pen eich hun, gofynnwch am gymorth.
- Helpwch eraill i godi neu symud llwyth os gofynnir i chi wneud hynny.
- Peidiwch â cheisio codi na symud gwrthrych os ydych chi'n dioddef o gyflwr meddygol sy'n eich rhoi mewn perygl o gael anaf (e.e. seiatica)

# Atodiad 10 – Cwestiynau cyffredin i staff gorsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio

**C. Pam mae angen i chi ysgrifennu fy rhif etholwr wrth ymyl rhifau fy mhapur pleidleisio? Ydy hyn yn golygu nad yw fy mhleidlais yn gyfrinachol?**

A. Mae'r gofyniad bod rhif yr etholwr yn cael ei gofnodi ar y rhestr hon yn erbyn rhif y papurau pleidleisio a roddwyd i chi wedi'i gynnwys yn rheolau'r etholiad. Yn ei hanfod, mae'r system hon yn fersiwn wedi'i diweddaru o system sy'n dyddio o Ddeddf Pleidleisio 1872, a gyflwynwyd i osgoi'r posibilrwydd o ddefnyddio papurau pleidleisio ffug ac i helpu i ganfod twyll honedig.

Yn amlwg, os caiff y papurau pleidleisio eu rhifo, mae'n llawer anos i berson diegwyddor gyflwyno copïau o bapurau pleidleisio swyddogol yn y blwch pleidleisio. Os oes gweithred dwyllodrus wedi digwydd, byddai modd canfod y drosedd drwy gyfeirio at y rhestr rhifau cyfatebol.

Mae yna fesur diogelu i atal rhifau'r papurau pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol rhag cael eu cysylltu â'r papurau pleidleisio wedi'u marcio. Ar ddiwedd y pleidleisio, rhoddir y rhestr rhifau cyfatebol mewn amlen wedi'i selio gan y Swyddog Llywyddu yn yr orsaf bleidleisio. Yna, eir â'r amlen wedi'i selio at y Swyddog Canlyniadau. Ar ôl i'r cyfrif ddigwydd, bydd y papurau pleidleisio sydd wedi cael eu defnyddio hefyd yn cael eu selio. Yr unig achlysur pan ellir agor y pecynnau seiliedig yw ar orchymyn barnwr o ganlyniad i ddeiseb etholiad neu i hyrwyddo ymchwiliad i drosedd etholiadol honedig. Hyd yn oed wedyn, anaml iawn y bydd y dogfennau'n cael eu harchwilio ac eithrio mewn achosion lle mae twyll neu gambersonadu (h.y. rhywun yn pleidleisio'n anghyfreithlon ar ran rhywun arall) yn cael eu harchwilio.

Oherwydd y mesurau diogelu uchod, mae bron yn amhosibl i unrhyw berson fod mewn sefyllfa i baru pleidleisiwr â phapur pleidleisio penodol.

Am y rheswm hwnnw, gall pleidleiswyr fod yn hyderus bod y bleidlais yn aros yn gyfrinachol. Nid oes gan bleidleiswyr unrhyw sail dros ofni y gellid canfod sut y gwnaethant bleidleisio, ac eithrio o dan yr amgylchiadau arbennig iawn a amlinellir uchod.

**C. Rwyf wedi anghofio postio fy mhleidlais bost. Ydw i'n cael pleidleisio'n bersonol yma yn yr orsaf bleidleisio?**

A. Ni allwn roi papurau pleidleisio cyffredin i chi yma yn yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, does dim angen i chi bostio eich pleidlais bost er mwyn pleidleisio, gallwch ddanfon eich pleidlais bost â llaw i'ch gorsaf bleidleisio (neu unrhyw orsaf bleidleisio arall yn yr ardal etholiadol berthnasol) neu gallwch gael rhywun arall i wneud hyn ar eich rhan. Bydd y gorsafoedd pleidleisio'n cau am 10pm. Neu, gallwch fynd â'ch pleidlais bost i swyddfa etholiadau'r cyngor lleol.

**C. Dydy fy mhleidlais bost ddim wedi cyrraedd eto - beth alla i ei wneud?**

A. **Cyn 5pm:** Gellir darparu un arall os gallwch gyrraedd y swyddfa etholiadau cyn 5pm heddiw. Bydd angen i chi ddod â rhyw fath o ddogfen adnabod gyda chi. Bydd staff y swyddfa etholiadau'n gallu darparu rhagor o wybodaeth am y weithdrefn hon a gallant ddweud wrthych pa fath o ddull adnabod sy'n dderbyniol.

**Ar ôl 5pm:** Mae gennych hawl i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd. Os ydych chi ar y gofrestr ar gyfer yr orsaf bleidleisio hon a'ch bod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, byddwn yn gallu ei rhoi i chi.

**C. Mae fy mhleidlais bost wedi cyrraedd, ond rwyf bellach wedi colli fy mhapur pleidleisio. Beth alla i ei wneud?**

A. **Cyn 5pm:** Gellir darparu un arall os gallwch gyrraedd y swyddfa etholiadau cyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Bydd angen i chi ddod ag unrhyw ddarnau o'ch pecyn pleidleisio drwy'r post sydd gennych o hyd a rhyw fath o ddogfen adnabod gyda chi. Bydd staff y swyddfa etholiadau'n gallu darparu rhagor o wybodaeth am y weithdrefn hon a gallant ddweud wrthych pa fath o ddull adnabod sy'n dderbyniol.

**Ar ôl 5pm:** Mae gennych hawl i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd. Os ydych chi ar y gofrestr ar gyfer yr orsaf bleidleisio hon a'ch bod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, byddwn yn gallu ei rhoi i chi.

**C. Rwyf wedi cael fy mhleidlais bost ond rwyf wedi newid fy meddwl erbyn hyn ac rwyf eisiau pleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio. Alla i ganslo fy mhleidlais bost?**

A. Na - ar ôl i chi gael pleidlais bost, rhaid i chi ei defnyddio os ydych chi eisiau pleidleisio yn yr etholiadau hyn; ni ellir rhoi papurau pleidleisio i chi mewn gorsaf bleidleisio. Fodd bynnag, gallwch ddychwelyd eich pleidlais bost wedi'i llenwi, wedi'i selio ac yn yr amlenni a ddarperir, â llaw i'ch gorsaf bleidleisio neu unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol berthnasol ar y diwrnod pleidleisio. Os ydych chi eisiau canslo eich pleidlais bost ar gyfer etholiadau a refferenda yn y dyfodol, cysylltwch â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

**C. Beth ydych chi'n feddwl rwyf heb gofrestru? Roeddwn i'n meddwl y gallai pawb bleidleisio?**

A. Mae angen i chi fod ar y gofrestr etholiadol i bleidleisio. Er mwyn cael eich cynnwys ar y gofrestr a gallu pleidleisio mewn etholiadau a refferenda yn y dyfodol, bydd angen i chi wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Os ydych chi'n siŵr eich bod wedi gwneud cais i gofrestru, cysylltwch â'r swyddfa cofrestru etholiadol.

**C. Mae fy ngŵr wedi cael damwain yn y gwaith ac mae wedi cael ei ruthro i'r ysbyty. Mae'n daer eisiau pleidleisio - a oes unrhyw beth y gellir ei wneud?**

A. Efallai y gall benodi dirprwy i bleidleisio ar ei ran. Y terfyn amser ar gyfer hyn yw 5pm heddiw. Gall staff y swyddfa etholiadau roi mwy o fanylion i chi am y drefn hon.

**C. Oes rhaid i mi ddefnyddio pensil i farcio fy mhapur pleidleisio?**

A. Gallwch bleidleisio gan ddefnyddio beiro neu bensil. Yn draddodiadol, pensiliau yw'r hyn a ddarperir mewn gorsafoedd pleidleisio, ond gallwch ddewis defnyddio beiro. Nid oes gofyniad cyfreithiol i bapurau pleidleisio gael eu marcio â phensil.

Gallwch ddod â'ch pensil neu'ch beiro eich hun i'r orsaf bleidleisio i bleidleisio.

Defnyddir pensiliau am resymau ymarferol: gyda phinnau ysgrifennu inc, mae risg bob amser y gallant sychu neu ollwng; gall inc achosi rhywfaint o drosglwyddo'r marc y mae'r pleidleisiwr wedi'i wneud ar y papurau pleidleisio os byddant yn ei blygu, gan arwain o bosibl at wrthod ei bleidlais os, er enghraifft, mae'n ymddangos ei fod wedi pleidleisio dros fwy o ymgeiswyr na'r hyn y mae ganddo hawl iddo.

Mae deddfwriaeth wedi cynnwys mesurau diogelu penodol yn y broses i atal a chanfod ymyrraeth â phapurau pleidleisio: mae'n ofynnol i seliau gael eu hatodi i flychau pleidleisio ac mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid hawl i fod yn bresennol ar ddiwedd y pleidleisio a gallant atodi eu seliau eu hunain os ydynt yn dymuno; yn y cyfrif gall ymgeiswyr ac asiantiaid wirio eu seliau cyn agor y blychau pleidleisio.

**C. Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am yr etholiad?**

A. Mae rhagor o wybodaeth am yr etholiad a'r pleidiau ac ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad ar gael yn [https://www.cdffc.llyw.cymru/bwrdd-rheoli-etholiadol](https://www.cdffc.llyw.cymru/bwrdd-rheoli-etholiadol)

# Atodiad 11 – Rhestr wirio ar gyfer gosod gorsafoedd pleidleisio

Dylid defnyddio'r rhestr wirio hon cyn i'r gorsafoedd pleidleisio agor er mwyn sicrhau bod yr orsaf bleidleisio wedi'i gosod yn gywir.

## Y tu allan i'r orsaf bleidleisio

**Gwiriwyd**

### Mynedfa, allanfa a ffyrdd dynesu

A yw arwyddion dynesu yn glir ac a yw etholwyr yn gallu gweld yn hawdd ble mae'r orsaf bleidleisio? ☐

A oes mannau parcio wedi'u cadw ar gyfer pobl anabl? ☐

Ydych chi wedi sicrhau nad oes unrhyw beryglon rhwng y mannau parcio ceir a mynedfa'r orsaf bleidleisio? ☐

### Arwyddion

Ydych chi wedi sicrhau arwyddion da ar gyfer unrhyw fynediad arall i bobl anabl, ac a all rhywun mewn cadair olwyn eu darllen? ☐

A yw'r hysbysiad 'Sut i bleidleisio yn yr etholiad' (gan gynnwys unrhyw un a ddarperir mewn ieithoedd a fformatau eraill) yn cael ei arddangos y tu allan i'r orsaf bleidleisio ac wedi'i osod fel y gall pob pleidleisiwr ei ddarllen? ☐

### Mynediad gwastad

A oes ramp addas heb rwystrau? ☐

Ydy'r ramp yn sefydlog? Os nad ydyw, cysylltwch â'r swyddfa etholiadau ar unwaith. ☐

Ydy'r matiau drws yn wastad â'r llawr? Os nad ydynt, tynnwch nhw. ☐

### Mynedfeydd

A yw drysau dwbl wedi cael eu harchwilio i sicrhau mynediad da i bawb? ☐

A oes arwyddion priodol ar gyfer y drws ar gyfer unrhyw fynediad ar wahân i bobl anabl? ☐

Ydych chi wedi sicrhau nad yw unrhyw arwyddion a/neu hysbysiadau yn rhwystro cadeiriau olwyn, y rheini sydd ag anawsterau symudedd, neu bleidleiswyr sydd â nam ar eu golwg? ☐

Os oes dyfais hysbysu/cloch drws dros dro wedi cael ei darparu, a yw'n gweithio ac yn hygyrch i bleidleiswyr? ☐

# Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio

| | Gwiriwyd |
|---|---|
| A yw'r orsaf bleidleisio wedi'i gosod i wneud y defnydd gorau o le? | ☐ |
| Cerddwch ar hyd y llwybr y bydd disgwyl i'r pleidleisiwr ei ddilyn, a gwnewch yn siŵr y bydd y cynllun yn gweithio i bleidleiswyr, gan ystyried sut byddant yn symud drwy'r broses bleidleisio o fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio i adael. | ☐ |
| A fyddai'r cynllun yn gweithio pe bai croniad o etholwyr yn aros i fwrw eu pleidleisiau ac a yw'n atal pleidleiswyr rhag gadael yr orsaf bleidleisio heb roi eu papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio? | ☐ |
| A oes defnydd gorau'n cael ei wneud o'r goleuadau a'r golau naturiol sydd ar gael? | ☐ |
| A yw'r orsaf bleidleisio wedi'i hawyru mor dda â phosibl? | ☐ |
| A oes sedd ar gael os oes angen i etholwr eistedd? | ☐ |
| Os oes dolen sain ar gael, a yw ymlaen? | ☐ |

## Hysbysiadau swyddogol

| | |
|---|---|
| A yw'r hysbysiad 'Sut i bleidleisio yn yr etholiad' (gan gynnwys unrhyw un a ddarperir mewn ieithoedd a fformatau eraill) yn cael ei arddangos y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac wedi'i osod fel y gall pob pleidleisiwr ei ddarllen? | ☐ |
| A yw'r hysbysiad sy'n rhoi gwybodaeth am sut i farcio'r papurau pleidleisio (gan gynnwys unrhyw rai a ddarperir mewn ieithoedd a fformatau eraill) wedi'u postio ym mhob bwth pleidleisio ac wedi'u lleoli fel y gall pob pleidleisiwr eu darllen? | ☐ |
| Wrth i chi gerdded ar hyd y llwybr y bydd disgwyl i'r pleidleisiwr ei ddilyn, a yw'r posteri a'r hysbysiadau i'w gweld yn glir, gan gynnwys ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a'r rheini a allai fod â nam ar eu golwg? | ☐ |
| Ydych chi wedi sicrhau nad yw'r hysbysiadau/posteri yn cael eu harddangos ymysg posteri eraill lle byddai etholwyr yn ei chael hi'n anodd eu gweld? | ☐ |

## Bythau pleidleisio/blwch pleidleisio

| | |
|---|---|
| A yw'r blwch pleidleisio wedi'i osod yn union wrth ymyl y Swyddog Llywyddu? | ☐ |
| A yw'r blwch pleidleisio wedi'i selio'n gywir? | ☐ |
| A all defnyddiwr cadair olwyn gael mynediad hawdd at y blwch pleidleisio? | ☐ |
| A all defnyddiwr cadair olwyn gael mynediad hawdd i'r bwth pleidleisio? | ☐ |
| A yw'r bythau pleidleisio wedi'u codi'n gywir ac mewn lleoliad sy'n gwneud y defnydd gorau o'r goleuadau a'r golau naturiol? | ☐ |
| A ydych wedi sicrhau bod bythau pleidleisio wedi'u lleoli fel na all pobl y tu allan weld sut y mae pleidleiswyr yn marcio eu papurau pleidleisio? | ☐ |
| A all y Swyddog Llywyddu a'r Clerc Pleidleisio eu harsylwi'n glir? | ☐ |
| A oes beiros/pensiliau ar gael ym mhob bwth ac unrhyw bensiliau wedi'u miniogi? | ☐ |

A yw'r llinyn sydd ynghlwm wrth y beiros/pensiliau yn ddigon hir ar gyfer maint papurau pleidleisio ac ar gyfer pleidleiswyr llaw dde a llaw chwith? ☐

## Arddangosiad print mawr a phapur pleidleisio sampl a ddelir yn y llaw

A yw'r papur pleidleisio print mawr i'w weld yn glir i bob pleidleisiwr? ☐

A yw'r papur pleidleisio print mawr a ddelir yn y llaw ar gael ac yn weladwy i bleidleiswyr? ☐

## Cyfarpar i gynorthwyo pleidleiswyr anabl

A yw'r ddyfais bleidleisio gyffyrddol ar gael ac yn gwbl weladwy? ☐

A yw'r chwyddwr(wyr) ar gael ac yn gwbl weladwy? ☐

A yw'r gafael(ion) penseli ar gael ac yn gwbl weladwy? ☐

A yw'r holl staff yn gwybod sut i'w defnyddio? ☐

## Papurau pleidleisio

Ai'r papurau pleidleisio yw'r rhai cywir ar gyfer yr orsaf bleidleisio ac a ydynt wedi'u rhifo'n gywir a'u pentyrru mewn trefn? ☐

## Rhestr rhifau cyfatebol

A yw rhifau'r papurau pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol wedi eu hargraffu mewn trefn rifol? ☐

A yw rhifau'r papurau pleidleisio sydd wedi'u hargraffu ar y rhestr rhifau cyfatebol yn cyfateb i'r rheini ar y papurau pleidleisio? ☐

## Cofrestr etholiadol

A oes gennych chi'r gofrestr gywir ar gyfer eich gorsaf bleidleisio ac a yw'n cynnwys y nifer disgwyliedig o etholwyr? ☐

## Bathodynnau'n dangos pwy yw staff yr orsaf bleidleisio

A yw'r bathodynnau sydd wedi eu darparu i nodi staff gorsafoedd pleidleisio ac i dynnu sylw at y ffaith bod pleidleiswyr yn gallu cysylltu â nhw i gael cymorth, yn cael eu gwisgo gan holl staff yr orsaf bleidleisio? ☐

# Nodiadau

# Nodiadau

## Arolwg staff gorsafoedd pleidleisio

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn casglu adborth gan staff gorsafoedd pleidleisio a hoffai glywed eich barn a'ch profiadau o weinyddu'r etholiad. Byddwn yn defnyddio'r adborth (yn ddienw) i lywio ein hadroddiadau ar ôl etholiadau sydd wedi'u trefnu ac i wneud argymhellion i wella sut mae etholiadau yn y DU yn cael eu cynnal.

Defnyddiwch y cod QR i'r dde, y gellir ei sganio, gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o ffonau clyfar, a bydd yn caniatáu i chi gael mynediad at yr arolwg 10 munud ar eich dyfais. **SYLWER: bydd yr arolwg yn agor am 2pm ar 7 Mai, a bydd yn cau yn fuan wedyn, ar ôl cael digon o ymatebion.**

Ar y rhan fwyaf o ffonau, mae modd sganio'r cod drwy ddefnyddio ap sganio cod QR sydd wedi'i osod yn barod neu drwy ddefnyddio camera'r ffôn. Efallai y bydd angen gosod ap sganio ar rai dyfeisiau. I sganio'r cod, agorwch naill ai'r camera dros yr ap perthnasol a gosodwch y ffôn fel bod y cod yn ymddangos yng nghanol y sgrin. Yna dylech gael cynnig yr opsiwn i ddilyn y ddolen a dylai'r arolwg agor yn y porwr ar eich ffôn.

Os nad ydych chi'n gallu cael y cod QR i weithio, gallwch chi roi'r URL canlynol i fynd i'r arolwg: https://eu.research.net/r/May26PollingStationStaff?lang=cy

Y
Comisiwn
Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ James William
9 Maes yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BD

Ffôn 03333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.electoralcommission.org.uk/cy

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau llwyddiannus. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle mae etholiadau a refferenda yn seiliedig ar ein hegwyddorion o ymddiriedaeth, cyfranogiad a rhyddid rhad dylinaf gormodol.

**Rhoi pleidleiswyr yn gyntaf**